ON
THE
MOVE

# Canllaw i gyllid ar gyfer symudedd diwylliannol

## i helpu gyda symudedd rhyngwladol artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol

**Y DEYRNAS UNEDIG**

Pedair cenedl Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ynghyd â Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig

ARGRAFFIAD 2023

Gwybodfan Celf y DU Arts Infopoint UK

wales arts international celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND
arts council of Northern Ireland
The Scottish Government
CREATIVE SCOTLAND ALBA | CHRUTHACHAIL

## On the Move

On the Move yw'r rhwydwaith gwybodaeth rhyngwladol sy'n gweithio ym maes symudedd artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol. Yn 2023, roedd ganddo 66 o aelodau mewn 24 o wledydd. Mae On the Move yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rhad ac am ddim am gyfleoedd a chyllid sy'n ymwneud â symudedd, a hynny drwy ei wefan, ei sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, a'i gylchlythyr amlieithog misol; mae'n cyd-greu canllawiau a dogfennau cyfeirio am symudedd diwylliannol proffesiynol a phynciau cysylltiedig; mae'n astudio problemau cyfredol sy'n ymwneud â symudedd (fel rhwystrau gweinyddol a heriau ecolegol); mae'n mynd ati i weithredu wrth ganfod y problemau hynny; ac mae'n hwyluso cyfleoedd dysgu a digwyddiadau eraill ar gyfer ei aelodau a'i bartneriaid.

Wedi'i gyd-ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Gweinyddiaeth Ddiwylliant Ffrainc, mae On the Move yn galw am symudedd diwylliannol tecach, mwy amrywiol, a mwy cyfrifol.

**on-the-move.org**

## Gwybodfan Celf y DU

Cynllun yw Gwybodfan Celf y DU sy'n datblygu adnoddau i helpu artistiaid rhyngwladol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig at ddibenion creadigol ac i wneud gwaith creadigol . Rydyn ni'n cynnig gwybodaeth a chymorth ymarferol yn rhad ac am ddim i helpu artistiaid, gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau i ddeall y rheolau. Gallwn ni hefyd eich tywys drwy rai o'r gofynion gweinyddol ar gyfer ymweliadau creadigol â'r Deyrnas Unedig. Rydyn ni'n rhoi arweiniad ac yn helpu i sicrhau bod cydweithio, cyfleoedd a phrofiadau rhyngwladol yn gallu parhau yn y sectorau diwylliannol. Rydyn ni'n bwynt canolog sy'n rhoi adnoddau a gwybodaeth ymarferol.

Rydyn ni'n bartneriaeth o aelodau o bob un o Gynghorau Celfyddydau y Deyrnas Unedig: **Arts Council England** | **Arts Council of Northern Ireland** | **Creative Scotland** ac rydyn ni'n cael ein harwain gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** | **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**.

**artsinfopointuk.com**

**Ymchwilwyr** Judith Staines a Katelijn Verstraete

**Managing editor** Katie Kheriji-Watts (On the Move)

**General coordination** Marie Le Sourd (On the Move) gyda chymorth Zélie Flach (Celfyddydau Rhyngwladol Cymru)

**Dylunydd graffeg** Marine Domec

Y dull cyfeirio a awgrymir : On the Move gyda Gwybodfan Celf y DU, *Canllaw i gyllid ar gyfer symudedd rhyngwladol artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol – Y Deyrnas Unedig* (2023). **on-the-move.org/resources**.

Creative Commons Licence Attribution-NonCommercial-NoDerivatives 4.0 International (CC BY-NC-ND 4.0)

Mae'r canllaw hwn, sef *Canllaw i gyllid ar gyfer symudedd rhyngwladol artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol – Y Deyrnas Unedig* wedi'i drwyddedu o dan CC BY- NC-ND 4.0. I weld copi o'r drwydded hon, ewch i **creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0**

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r ffont Luciole – ffurfdeip sydd wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg. **http://luciole-vision.com/luciole-en.html**

**Awgrymiadau ar gyfer darllen y canllaw hwn:** Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n lawrlwytho'r canllaw hwn ac yn ei agor gan ddefnyddio Acrobat Reader. Fe allwch chi wedyn glicio ar y dolenni i'r we a gweld yr adnoddau a'r cynlluniau cyllido. Dewis arall yw copïo a gludo'r dolenni ar y we i'r cynlluniau/adnoddau sydd o ddiddordeb i chi ym maes URL eich porwr. Gan fod y canllaw hwn yn hir, rydyn ni'n eich cynghori i beidio â'i argraffu, yn enwedig gan fod yr holl adnoddau ar gael ar y we.

# Cyflwyniad

Mae'r argraffiad diweddaraf hwn o'r *Canllaw i Gyllid ar gyfer symudedd rhyngwladol artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol – Yr Undeb Ewropeaidd* wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023 gan On the Move ar y cyd â Gwybodfan Celf y DU. Mae'n casglu ac yn cyflwyno gwybodaeth am y sefydliadau a'r rhaglenni sy'n rhoi cymorth ariannol i artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol sy'n dymuno teithio yn rhyngwladol at ddibenion eu gwaith i'r Deyrnas Unedig a/neu ohoni (y Deyrnas Unedig yw pedair cenedl Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig sydd â phoblogaethau parhaol hyfyw).

Fel yn achos holl **ganllawiau On the Move am gyllid ar gyfer symudedd diwylliannol**, nod y cyhoeddiad hwn yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol sy'n awyddus i gymryd rhan mewn cyfleoedd rhyngwladol ac sy'n chwilio am gyllid ar gyfer hynny. Rydyn ni'n gobeithio hefyd y bydd yn adnodd i arweinwyr sefydliadau, llunwyr polisi a chyllidwyr preifat ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal ag i randdeiliaid yn y maes symudedd diwylliannol yn ehangach.

Mae'r canllaw hwn yn rhestru adnoddau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, yn rhai cyhoeddus a phreifat ill dau. Mae'r cyfleoedd rydyn ni wedi'u cynnwys i gyd ar gael yn rheolaidd; ar gael i'w gweld ar-lein; yn gwahodd ceisiadau drwy alwadau agored; ac yn cynnig o leiaf rywfaint o gostau teithio rhyngwladol.

Cafodd ein gwaith ymchwil ei wneud ym mis Mawrth 2023, ac mae hwnnw wedi'i seilio ar ymchwil ar-lein helaeth ynghyd ag ar astudiaethau sydd wedi'u llunio'n barod. Er ein bod wedi ceisio bod mor drylwyr a chywir â phosibl, efallai y bydd cofnodion unigol yn anghyflawn neu na fyddan nhw'n gyfredol maes o law. Edrychwch ar wefannau'r cronfeydd sy'n cael eu rhestru i weld y wybodaeth ddiweddaraf. Os byddwch chi'n sylwi ar gamgymeriadau wrth ddarllen drwy'r ddogfen hon, croeso i chi anfon sylwadau, awgrymiadau a chywiriadau i: **info@on-the-move.org**.

Mae'r adran newyddion ar wefan On the Move yn casglu ac yn cyhoeddi galwadau agored untro sy'n cynnig cyfleoedd ym maes symudedd diwylliannol. Fe allwch chi hefyd gael crynodeb o'r cyfleoedd diweddaraf drwy danysgrifio i'n cylchlythyr ar-lein, sydd ar gael yn rhad ac am ddim bob mis.

**on-the-move.org/news** | **on-the-move.org/newsletter**

# Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn i gyllid ar gyfer symudedd diwylliannol

Fe allai pobl sy'n defnyddio'r canllaw hwn fod yn chwilio am gyllid ar gyfer symudedd am nifer o resymau. Er enghraifft :

- Maen nhw wedi cael eu dewis i fod yn rhan o brosiect mewn gwlad dramor (prosiect cydweithio, cyfnod preswyl artistig, cymryd rhan mewn gŵyl ac ati) ond dydyn nhw ddim wedi cael cyllid ar gyfer eu costau symudedd.

- Maen nhw wedi datblygu prosiect ag iddo elfen ryngwladol, ac maen nhw'n dymuno gwahodd artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol o dramor i fan neu wlad arall (neu i fwy nag un ohonyn nhw) ar gyfer cyd-gynhyrchu, teithio, datblygu'r farchnad ac ati.

- Mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn cael profiad gwaith (gan gynnwys hyfforddiant) mewn gwlad dramor ac maen nhw'n chwilio am ffordd o dalu eu costau teithio.

Yn sgil y gwahanol amcanion hyn, mae'r cofnodion yn y canllaw hwn yn dangos y costau sydd ar gael o dan bob cynllun, gan gynnwys costau teithio dros ffiniau, costau fisâu, per diems, costau talu cydweithwyr, costau llety, costau cynhyrchu, a mathau eraill o gymorth (e.e. costau cyfieithu).

Mae'r canllaw hwn yn casglu ynghyd :

- Y cyfleoedd am gyllid ar gyfer symudedd sydd ar agor i wladolion a phreswylwyr y Deyrnas Unedig (pedair cenedl Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, ynghyd â Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig). Disgrifir hyn fel Symudedd Allanol;

- Y cyfleoedd am gyllid ar gyfer symudedd sydd ar agor i wladolion gwledydd ar wahân i'r Deyrnas Unedig (pedair cenedl Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, ynghyd â Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig). Disgrifir hyn fel Symudedd Mewnol.

Mae'r cyhoeddiad hwn (fel yn achos pob un o ganllawiau On the Move i gyllid ar gyfer symudedd diwylliannol) yn cynnwys y canlynol:

- Cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan amrywiaeth o gyllidwyr gwahanol: sefydliadau rhyngwladol, cyrff rhanbarthol, sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol, sefydliadau preifat ac ati.

- Cynlluniau sy'n cefnogi amrywiaeth o ffurfiau ar symudedd, gan gynnwys cyfarfodydd rhwng cymheiriaid, gweithdai, cyfnodau preswyl, grantiau teithio, rhaglenni hyfforddiant, a chyfleoedd i rwydweithio. Y nod yw cefnogi popeth o gydweithio i gynhyrchu diwylliannol, o ddatblygu proffesiynol i waith sy'n esblygu arferion drwy'r holl sector.

- Yn yr holl gyfleoedd, mae costau teithio dros ffiniau'n cael eu hariannu'n rhannol, o leiaf. Rydyn ni hefyd yn rhestru rhaglenni lleol, rhanbarthol a rhyngwladol sy'n cynnwys symudedd trawsgenedlaethol fel elfen yn eu cymorth i artistiaid a sefydliadau diwylliannol yn y rhanbarth.

- Cyfleoedd ym mhob disgyblaeth greadigol: y celfyddydau perfformio (theatr, dawns, opera, syrcas, celfyddydau'r stryd…); cerddoriaeth a chelfyddyd sain; radio; ffilm; y celfyddydau gweledol (ffotograffiaeth, lluniadu, paentio, cerflunio, gosodiadau…); technoleg greadigol (gemau fideo, y cyfryngau newydd, celfyddydau ar y we, rhithrealiti…); llenyddiaeth (ysgrifennu, cyfieithu…); crefft a dylunio (ffasiwn, pensaernïaeth, celfyddydau cymhwysol…); treftadaeth (diriaethol neu haniaethol, archifau…); ymarfer ar safleoedd penodol, ymarfer cyfranogol, ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithas, a/neu ymarfer sy'n seiliedig ar gymunedau; curadu a rheoli diwylliannol.

Mae'r canllaw hwn hefyd yn ceisio amlygu'r cynlluniau hynny sy'n ymateb i bryderon cynyddol sy'n croestorri sectorau a chymdeithas – ac yn enwedig rhaglenni sy'n rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer teithio dros y tir (pan fydd hynny'n bosibl). Rhoddir sylw i hefyd i gynlluniau sy'n ymateb i anghenion artistiaid anabl neu ofalwyr, a rhai sy'n hybu cydweithio dros ffiniau gan ddefnyddio ffurfiau digidol neu hybrid.

# Cynnwys

## A. Cyllid cyhoeddus


### Y Deyrnas Unedig

**Arts Council England, Arts Council of Northern Ireland, Creative Scotland, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru**

* Cronfa Ryngwladol y Pedair Cenedl

**Arts Council England, Arts Council of Northern Ireland, Creative Scotland, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru , Fonds Soziokultur, Goethe-Institut London, British Council**

* Y Bont Ddiwylliannol

**British Council**

* 'International Collaborations Grants'

**British Council a'r the BBC World Service**

* 'International Radio Playwriting Competition'

**British Council a BFI NETWORK**

* 'Short Film / VR Festival Travel Grant'
* 'International Lab Travel Grant'

**British Council mewn partneriaeth ag Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

* 'Cultural Protection Fund Small Grants'
* 'Cultural Protection Fund Large Grants'
* 'Connections Through Culture'

**Yr Adran Masnach Ryngwladol (Llywodraeth y Deyrnas Unedig)**

* 'UK Tradeshow Programme'

**Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

* 'Turing Scheme Mobility'

### Lloegr

**Arts Council England**

* 'National Lottery Project Grants'
* 'Develop Your Creative Practice'

**Arts Council England and the Danish Arts Foundation**

* 'International Touring and Environmental Responsibility'

**Arts Council England, Gweinyddiaeth Ddiwylliant yr Eidal (Yr Adran Celfyddydau Perfformio), yr Italian Cultural Institute of London, a'r British Council**

* 'Open Dialogo'

### Gogledd Iwerddon

**Arts Council of Northern Ireland**

* 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Travel Awards'
* 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Minority Ethnic Residency & Mentoring Programme'
* 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Major Individuals Award'
* 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - General Awards'
* 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Artists Career Enhancement Scheme'

**Arts Council of Northern Ireland and British Council**

* 'Support for Individual Artist Programme (SIAP) - Artists International Development Fund'

### Yr Alban

**Creative Scotland**

* 'National Lottery Open Fund for Organisations'
* 'National Lottery Extended Programme Fund'
* 'Open Fund for Individuals'
* 'Go See Share Creative Industries Fund'

**Creative Scotland, the Edinburgh Festival Fringe Society, the Federation of Scottish Theatre, the Scottish Music Centre**

* 'Made in Scotland Funding - Onward International Touring'

**Screen Scotland**

* 'Market and Festival Attendance Fund'
* 'Professional Development Fund'

### Cymru

**Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**

* Y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar gyfer Unigolion a Sefydliadau

**Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Québec**

* Rhaglen Gydweithrediad rhwng Québec a Chymru

### Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig

**ArtHouse Jersey**

* 'ArtHouse Jersey Development Grants'

**Bermuda Arts Council**

* Grantiau Bermuda Arts Council

**Bòrd na Gàidhlig & Foras na Gaeilge**

* 'Colmcille Small Grants Scheme'

**Isle of Man Arts Council**

* Grantiau teithiol

## B. Sefydliadau, sefydliadau celfyddydol ac ymddiriedolaethau elusennol eraill

**The Alpine Fellowship Foundation**

* 'The Alpine Fellowship Prize (Writing, Poetry, Theatre, Visual Art)'

**a-n The Artists Information Company**

* Ysgoloriaethau i Artistiaid a-n

**Art Fund**

* 'Jonathan Ruffer Curatorial Grant'

**Bagri Foundation**

* Grantiau

**Daiwa Anglo-Japanese Foundation**

* 'Daiwa Foundation Small Grants'
* 'Daiwa Foundation Awards'

**Fidelio Charitable Trust**

* Grantiau Fidelio Charitable Trust

**The Finzi Trust**

* 'Finzi Trust Young Musicians Fund'
* 'Finzi Trust Unrestricted Fund'

**The Great Britain Sasakawa Foundation**

* Grantiau

**Help Musicians**

* 'Develop your music'

**Japan Foundation, Llundain**

* 'Exhibitions Abroad Support Programme'
* Rhaglen grantiau ar gyfer prosiectau sgrinio ffilmiau o Japan yn y Deyrnas Unedig
* 'Local Project Support Programme'

**Oppenheim-John Downes Memorial Trust**

* Dyfarniadau

**Sefydliad PRS**

* Y Gronfa Arddangos Rhyngwladol
* 'Beyond Borders'

**Rivington Fund**

* Cullid Rivington

**Rothschild Foundation Hanadiv Europe**

* Treftadaeth Iddewig Ewropeaidd: Datblygu Proffesiynol – Ymweliadau â Safleoedd

**Scottish Books International in partnership with Creative Scotland**

* 'Author International Travel Fund'

**Society for Caribbean Studies (Y Deyrnas Unedig)**

* 'Bridget Jones Travel Award'

**Society of Authors**

* 'Drusilla Harvey Access Fund'

## C. Cyfnodau Preswyl

**Aargauer Kuratorium**

* Cyfnodau preswyl i artistiaid yn ACME, Llundain

**The Art House and The Royal Over-Seas League**

* Cyfnod Preswyl Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig

**Arts Council England, Creative Scotland, the Goethe-Institut, NRW KULTURsekretariat, a Nordisk Kulturfond**

* Cyfnod preswyl rhyngwladol CROWD ym maes dawns

**Australia Council for the Arts**

* Cyfnod preswyl Acme, Llundain

**Yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain**

* 'Abbey Fellowships in Painting & Abbey Scholarship in Painting'
* 'The Bridget Riley Fellowship'
* Cymrodoriaeth Cymru Greadigol – Yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain
* 'The Sainsbury Scholarship'

**Conseil des arts et des lettres du Québec (CALQ)**

* Studio du Québec à Londres / Cyfnod preswyl i Artistiaid yn ACME, Llundain

**Cove Park / Varuna | The National Writers' House**

* Rhaglen Gyfnewid Breswyl Cove Park / Varuna

**Cove Park – Mophradat**

* Cyfnod Preswyl Art Time (Partneriaeth Mophradat – Cove Park)

**D6: Culture in Transit a phartneriaid cyllido**

* Rhaglenni amrywiol sy'n cynnig cyfnodau preswyl gan bartneriaethau

**Delfina Foundation a phartneriaid cyllido**

* Rhaglen Breswyl, 'Brooks International Fellowship Programme' yn Tate a Delfina Foundation

**Finnish Institute (yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon)**

* Cyfnod Preswyl 'Mind the Gap'

**Friends of the Scott Polar Research Institute (SPRI)**

* 'Friends of SPRI/HMS PROTECTOR Artists in Residence Programme'

**Gasworks a phartneriaid cyllido**

* Cyfnodau preswyl i artistiaid (rhaglenni amrywiol)

**Hessische Kulturstiftung**

* ArCyfnod preswyl i artistiaid yn ACME, Llundain / Atelierstipendium Llundain

**Institut français du Royaume-Uni, Arts Council England, Creative Scotland, Cyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council of Northern Ireland**

* Cyfnodau Preswyl Magnetic

**Khazanah Nasional**

* Cyfnod Preswyl Celf Khazanah yn ACME, Llundain

**Landis & Gyr Foundation**

* Cyfnodau preswyl Landis & Gyr Foundation yn ACME, Smithy Street, Llundain

**Making Tracks a phartneriaid cyllido**

* Cyfnod Preswyl a Thaith Ryngwladol Making Tracks ar gyfer Cyfnewid Cerddoriaeth

**New Contemporaries**

* 'New Contemporaries Research Residency with British School at Rome'

**Nordic Alliance of Artists' Residencies on Climate Action (NAARCA) a phartneriaid cyllido**

* Comisiwn Ysgrifennu NAARCA

**Sefydliad PRS Foundation**

* 'Musician in Residence' gyda'r British Council

**Tyrone Guthrie Centre a phartneriaid cyllido**

* Rhaglenni preswyl amrywiol

**Uniarts Helsinki Academy of Fine Arts a'r Saastamoinen Foundation**

* Rhaglen 'Alumni residency' yn SPACE, Llundain
* 'Ecologies in the Making: Sculpting Futures' – rhaglen breswyl i gyn-fyfyrwyr yn y Scottish Sculpture Workshop a Cove Park

## D. Cymrodoriaethau ac ysgoloriaethau

**Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC)**

* Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol

**British Council**

* Ysgoloriaethau 'GREAT'

**Yr Amgueddfa Brydeinig**

* 'International Training Programme' (ITP)

**Yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain**

* 'Rome Fellowships', 'Rome Scholarships', 'Rome Awards'

**Comisiwn Ysgoloriaethau'r Gymanwlad wedi'i ariannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig: yr Adran Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r prifysgolion sy'n lletya yn y Deyrnas Unedig)**

* Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau'r Gymanwlad

**Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu**

* Ysgoloriaethau Chevening
* Ysgoloriaethau Marshall

**Frankfurter Buchmesse / Ffair Lyfrau Frankfurt**

* 'Frankfurt Fellowship Programme'

**Henry Moore Foundation**

* 'Visiting Research Fellowships', 'Artist Research Fellowships', Grantiau Ymchwil a Theithio

**Leverhulme Trust**

* 'International Fellowships'
* 'Study Abroad Studentships'

**Paul Mellon Centre**

* 'Research Support Grants'
* 'Rome Fellowship'

**Sefydliad PRS**

* Cymrodoriaethau Classical:NEXT

**Royal Drawing School – gyda nawdd y Christopher Isherwood Foundation**

* 'The Don Bachardy Fellowship'

**Shackleton Scholarship Fund**

* Ysgoloriaethau 'Quality of Life'

**South Georgia Heritage Trust**

* 'David Nicholls Curatorial Internship'

**Prifysgol East Anglia**

* 'David T K Wong Creative Writing Fellowship'

**Winston Churchill Memorial Trust**

* 'The Churchill Fellowship'

# E. Adnoddau ychwanegol

### Cronfeydd data am gyllid

* Funds Online
* GrantNav

### Gwasanaethau cynghori

* Gwybodfan Celf y DU
* Gwasanaeth cynghori am fisâu

### Cyfleoedd symudedd a chyllido – detholiad o adnoddau sy'n rhoi gwybodaeth i artistiaid yn y Deyrnas Unedig

* a-n The Artists Information Company
* Artquest
* Artsadmin
* Axisweb
* British Council
* Crafts Council
* FLAMIN (Film London Artists' Moving Image Network)
* Jerwood Arts: Signpost

### Adnoddau symudedd eraill

* Artists at Risk (AR)

### Cyrff ac asiantau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am y celfyddydau a diwylliant (yn rhai o Diriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain)

* Anguilla: Llywodraeth Anguilla – Y Weinyddiaeth Datblygu Cymdeithasol, Addysg a Llyfrgelloedd: Adran Ieuenctid a Diwylliant
* Bermuda: Bermuda Arts Council
* Ynysoedd Prydeinig y Wyryf: Yr Adran Ddiwylliant
* Gibraltar: Y Weinyddiaeth Diwylliant a Gwasanaethau Diwylliannol Gibraltar
* Guernsey: Guernsey Arts
* Ynys Manaw: Isle of Man Arts Council
* Jersey: ArtHouse Jersey
* Montserrat: Montserrat Arts Council

# Cefndir yr ymchwilwyr

# A. Cyllid cyhoeddus

# Y Deyrnas Unedig

## Arts Council England, Arts Council of Northern Ireland,Creative Scotland, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

### * Cronfa Ryngwladol y Pedair Cenedl

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaeleg, Cymraeg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl
- Rhwydweithio
- Datblygu partneriaethau
- Prosiectau cyd-greu

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau perfformio
- Y celfyddydau gweledol
- Cerddoriaeth
- Llenyddiaeth
- Celfyddydau amlddisgyblaethol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yn un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban)
- Artistiaid, gweithwyr diwylliannol proffesiynol, sefydliadau sy'n creu partneriaethau a phrosiectau cyd-greu rhyngwladol

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

⇒ Byd-eang (mannau eraill yn Ewrop a'r tu hwnt)

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid i'r cais gynnwys partneriaid yn o leiaf ddwy o bedair cenedl y Deyrnas Unedig ac o leiaf un partner rhyngwladol. Gall y partneriaid fod yn unigolion neu'n sefydliadau.
- Mae'r gronfa hon yn blaenoriaethu partneriaethau rhyngwladol yn Ewrop.
- Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n arbrofi â modelau arloesol wrth gydweithio yn rhyngwladol.
- Rhoddir cymorth i unigolion a sefydliadau nad ydyn nhw â statws cyllido rheolaidd drwy unrhyw un o gynlluniau cyllido canlynol y cynghorau celfyddydau: 'National Portfolio Organisations' Arts Council England; 'Annual Funding Programme' Arts Council Northern Ireland; Portfolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru; a 'Regularly Funded Organisations' Creative Scotland.
- Gall ymgeiswyr wneud cais am rhwng £1,000 a £5,000, ac am gostau hygyrchedd yn ychwanegol at hyn.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Fisâu
- Per diem / cynhaliaeth
- Ffioedd artistig / costau creadigol (gan gynnwys safonau cydnabyddedig y diwydiant)
- Llety
- Costau cydweithio digidol
- Llogi stiwdio / lleoliad
- Costau hygyrchedd
- Eraill: cyfieithu, yswiriant, marchnata

**Sylwadau penodol**

- Gall y cydweithio fod wyneb yn wyneb, yn ddigidol ac yn hybrid.
- Disgwyliad i roi tâl teg i bobl sy'n rhan o ddarparu'r gwaith.
- Disgwyliad yn y cais i brofi ffyrdd newydd o weithio gan ymateb i un o'r materion canlynol: cynhwysiant, cydweithio teg, cyfrifoldeb at yr hinsawdd.
- Gellir gwneud cais am gymorth hygyrchedd yn ystod y broses ymgeisio, a gellir cynnwys costau hygyrchedd yn y cais.

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.creativescotland.com/funding/funding-programmes/targeted-funding/four-nations-international-fund**

## Arts Council England, Arts Council of Northern Ireland, Creative Scotland, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Fonds Soziokultur, Goethe-Institut London, British Council

### * Y Bont Ddiwylliannol

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaeleg, Cymraeg

**Y math o symudedd**

- Datblygu partneriaethau
- Prosiectau cyd-greu

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob un
- Ymarfer diwylliannol sy'n ymwneud â chymdeithas

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yn un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig – Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddona'r Alban, neu yn yr Almaen
- Ar agor i bob sefydliad diwylliannol sydd wedi profi ei allu ym maes ymarfer cyfranogol/ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithas.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ (Yr Almaen → Y Deyrnas Unedig)

⇒ (Y Deyrnas Unedig → Yr Almaen)

**Blaenoriaethau eraill**

- Themâu penodol: ymwneud â chymunedau mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol; gweithio mewn ardaloedd neu gyda chymunedau sy'n cael llai o gyfleoedd i ymwneud ag ymarfer diwylliannol neu gymunedau y mae mudiadau llawr gwlad wedi'u gweddnewid; a phrosiectau sy'n edrych ar ailddiffinio'r defnydd o ofod cyhoeddus.
- Rhaid i'r partneriaethau gynnwys o leiaf un partner o'r Almaen ac un partner o'r Deyrnas Unedig, a hynny o unrhyw un o'r pedair cenedl: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Cyflogau neu ffioedd yr artistiaid neu'r gweithwyr creadigol sy'n rhan o'r gwaith
- Llety
- Costau cydweithio digidol
- Llogi lleoliad, cyfarpar, neu brynu deunyddiau
- Costau hygyrchedd
- Eraill: ymchwil, cofnodi digidol, marchnata, yswiriant, dogfennau teithio
- I bartneriaethau newydd: cyfanswm o rhwng £5,000 a £10,000 i bob partneriaeth
- I bartneriaethau sydd wedi'u sefydlu'n barod: hyd at £30,000 i bob partneriaeth

**Sylwadau penodol**

- Gall y cydweithio fod wyneb yn wyneb, yn ddigidol ac yn hybrid.
- Mae cymorth hygyrchedd personol ar gael i wneud cais.
- Mae'r canllawiau i wneud cais ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys PDF wedi'i fformatio, testun plaen a sain, neu mewn fformat gwahanol drwy wneud cais.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.cultural-bridge.info/**

## British Council

### * 'International Collaborations Grants'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grant i gydweithio ar brosiect
- Ymchwil
- Rhaglenni meithrin capasiti / datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth gelfyddydol
- Ymarfer sy'n pontio disgyblaethau
- Technoleg greadigol (gan gynnwys gemau; technoleg drochi, gymysg ac estynedig; a rhithrealiti)
- Prosiectau ymchwil ac addysg ag iddyn nhw elfen o gelfyddydau a diwylliant

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Ar agor i sefydliadau yn y Deyrnas Unedig a sefydliadau rhyngwladol i weithio ar brosiectau mewn partneriaeth. Rhaid i'r sefydliadau rhyngwladol fod wedi'u lleoli yn y gwledydd a restrir isod.
- Sefydliadau celfyddydol a diwylliannol, a sefydliadau addysg uwch/ymchwil sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau a diwylliant.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig (o wledydd dynodedig)

⇒ Algeria, Yr Ariannin, Bangladesh, Brasil, Tsieina, Colombia, yr Aifft, Ffrainc, yr Almaen, Ghana, India, Indonesia, Irac, Iwerddon, Yr Eidal, Japan, Jordan, Kenya, Korea, Lebanon, Malaysia, Mecsico, Morocco, Myanmar, Nepal, Nigeria, Norwy, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina, Pacistan, Periw, Ynysoedd Philippines, Gwlad Pwyl, Qatar, Romania, Rwsia, Saudi, Sbaen, De Affrica, Sudan, Taiwan, Gwlad Thai, Tunisia, Twrci, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Wcráin, a Fietnam

**Blaenoriaethau eraill**

- Fel rhan o'r bartneriaeth, dylai pob prosiect gynnwys o leiaf un sefydliad sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig ac un sefydliad sydd wedi'i leoli yn y gwledydd a restrir uchod.
- Gall prosiectau gynnwys artistiaid rhyngwladol sydd wedi'u lleoli mewn unrhyw wlad yn ychwanegol at y rheini yn y Deyrnas Unedig a'r gweledydd cymwys, ond rhaid gwario'r grant yn y gwledydd cymwys.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Fisâu
- Per diem
- Taliadau cydnabyddiaeth
- Llety
- Costau cynhyrchu
- Grantiau rhwng £5,000 a £75,000

**Sylwadau penodol**

- Gall y cydweithio fod yn ddigidol, wyneb yn wyneb ac yn hybrid.
- Gall y prosiectau roi sylw i unrhyw bwnc neu thema – ond mae diddordeb penodol mewn cydweithio sy'n canolbwyntio ar rywedd, hil, ethnigrwydd, anabledd, cynhwysiant, heneiddio a meysydd eraill sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https:/www.britishcouncil.org/arts/international-collaboration-grants**

## British Council a'r BBC World Service

### * 'International Radio Playwriting Competition'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau teithio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Llenyddiaeth (ysgrifennu dramâu)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Ar agor i unrhyw un dros 18 oed, nad yw'n cael ei ystyried yn un o breswylwyr y Deyrnas Unedig neu Brydain a Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw

**Cyrchfan**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill** Ni chaiff ymgeiswyr weithio i'r BBC, i un o gwmnïau BBC Group, nac i'r British Council, na bod yn berthnasau agos i unrhyw weithwyr o'r fath nac i unrhyw unigolion sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth. Efallai y gofynnir am brawf oedran, prawf adnabod a phrawf o'ch cymhwysedd.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio i'r Deyrnas Unedig
- Gwobr o £2,500

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://theatreanddance.britishcouncil.org/blog/2022/internationalradioplaywriting2023/**

# British Council a BFI NETWORK

## * 'Short Film / VR Festival Travel Grant'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau teithio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ffilm a rhithrealiti

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn byw yn y Deyrnas Unedig a dros 18 oed.
- Ar agor i wneuthurwyr ffilmiau byrion a gwneuthurwyr rhithrealiti sydd eisiau teithio i wyliau rhyngwladol ble mae eu gweithiau'n cael eu sgrinio.
- Gall cyfarwyddwr, cynhyrchydd neu awdur prosiect wneud cais, a rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn.
- Rhaid i ffilm fer / prosiect yr ymgeisydd fod wedi'i ddewis gan o leiaf un o'r gwyliau ar restr 'Key Festivals' y British Council, a rhaid rhoi tystiolaeth o ddewis yr ŵyl.
- Rhaid i'r ffilm neu'r prosiect fod yn gynhyrchiad / cyd-gynhyrchiad yn y Deyrnas Unedig.
- Ni chaiff y ffilm neu'r prosiect fod yn hwy na 60 munud o hyd.
- Gellir rhoi uchafswm o dri grant i bob ffilm neu brosiect.
- Gellir rhoi uchafswm o un grant ar gyfer pob gŵyl i bob ffilm neu brosiect.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Y gwledydd sydd wedi'u henwi ar restr 'Key Festivals' y British Council (ewch i **wefan y British Council**)

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid i'r ffilm neu'r prosiect fod yn gynhyrchiad / cyd-gynhyrchiad yn y Deyrnas Unedig.
- Ni chaiff y ffilm neu'r prosiect fod yn hwy na 60 munud o hyd.
- Gellir rhoi uchafswm o dri grant i bob ffilm neu brosiect.
- Gellir rhoi uchafswm o un grant ar gyfer pob gŵyl i bob ffilm neu brosiect.
- Ni fydd y gronfa'n derbyn ceisiadau am weithgarwch sydd wedi bod eisoes, h.y. cais am daith sydd eisoes wedi'i gwneud neu pan fydd gŵyl eisoes wedi dechrau.

**Y costau sy'n berthnasol** Teithio

**Sylwadau penodol**

- Yn achos anghenion hygyrchedd penodol, holwch y British Council ynghylch pa gymorth ychwanegol a allai fod ar gael i'r rheini sy'n cael y 'Short Film Festival Travel Grant' – er enghraifft, cyllid ychwanegol i hwyluso teithio gyda dehonglwr BSL neu weithiwr hygyrchedd.
- Mae'r rheini sy'n cael y grant teithio hwn yn cael eu hannog i deithio i ddigwyddiadau yn Ewrop ar drên, ac efallai y byddan nhw'n cael cyllid ychwanegol i wneud hynny.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://film.britishcouncil.org/opportunities/short-film-travel-grant**

## * 'International Lab Travel Grant'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau teithio
- Datblygu proffesiynol
- Cyfarfodydd rhwydweithio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ffilm a rhithrealiti

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn byw yn y Deyrnas Unedig a dros 18 oed.
- Gwneuthurwyr ffilm newydd ac egin wneuthurwyr ffilm, a gwneuthurwyr ffilm sy'n cynhyrchu rhithrealiti a phrofiadau adrodd straeon sy'n defnyddio technoleg drochi

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Gwledydd lle mae'r 'Key Labs' yn cael eu cynnal (ewch i **wefan y British Council**)

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid i ymgeiswyr cymwys fod wedi'u dewis gan un o'r 'Labs' ar restr 'Key Labs' y British Council i gael yr 'International Lab Travel Grant'.
- Os yw'r 'Lab' wedi'i seilio ar brosiect, rhaid i'r ffilm neu'r prosiect a ddewiswyd fod yn gynhyrchiad neu'n gyd-gynhyrchiad yn y Deyrnas Unedig.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Ffioedd cyrsiau

**Sylwadau penodol**

- Yn achos anghenion hygyrchedd penodol, holwch y British Council ynghylch pa gymorth ychwanegol a allai fod ar gael i'r rheini sy'n cael y 'Short Film Festival Travel Grant' – er enghraifft cyllid ychwanegol i hwyluso teithio gyda dehonglwr BSL neu weithiwr hygyrchedd.
- Mae'r rheini sy'n cael y grant teithio hwn yn cael eu hannog i deithio i ddigwyddiadau yn Ewrop ar drên, ac efallai y byddan nhw'n cael cyllid ychwanegol i wneud hynny.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://film.britishcouncil.org/opportunities/labs-travel-grant**

# British Council mewn partneriaeth ag Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y Deyrnas Unedig

* 'Cultural Protection Fund Small Grants'
* 'Cultural Protection Fund Large Grants'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Grantiau i brosiectau
- Grantiau ymchwil
- Rhaglenni meithrin capasiti / datblygu proffesiynol
- Ysgoloriaethau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant pellach / ôl-raddedig

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Treftadaeth (treftadaeth ddiriaethol, treftadaeth haniaethol, archifau)
- Ymarfer sy'n pontio disgyblaethau
- Ymchwil (yn canolbwyntio ar ddisgyblaeth benodol, neu fwy nag un, a/neu yn gysylltiedig a sector arall ar wahân i'r celfyddydau)
- Rheoli diwylliannol
- Pob un

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Gall sefydliadau wneud cais o unrhyw le yn y byd, ond rhaid iddyn nhw fod yn gweithio yn un o'r gwledydd neu'r tiriogaethau y mae'r gronfa yn eu targedu:
  - Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica: Algeria, yr Aifft, Irac, Jordan, Lebanon, Libya, Tiriogaethau Meddianedig Palestina, Syria, Tunisia a Yemen
  - Dwyrain Affrica: Ethiopia, Kenya, Sudan, Tanzania ac Uganda
  - De Asia: Affganistan

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Algeria, yr Aifft, Irac, Jordan, Lebanon, Libya, Tiriogaethau Meddianedig Palestina, Syria, Tunisia, Yemen, Ethiopia, Kenya, Sudan, Tanzania, Uganda ac Affganistan

**Blaenoriaethau eraill**
- Rhaid i brosiectau gynnwys gweithgareddau sy'n gwarchod treftadaeth ddiwylliannol i genedlaethau'r dyfodol. Rhaid i brosiectau warchod treftadaeth rhag risgiau sy'n gysylltiedig â gwrthdaro ac ansefydlogrwydd a/neu newid yn yr hinsawdd (a thrychinebau cysylltiedig).
- Rhaid i brosiectau fynd ati'n ystyrlon i gynnwys y gymuned leol, naill ai drwy weithgareddau sy'n gwarchod treftadaeth, drwy hyfforddiant, neu drwy eirioli.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Costau gwarchod treftadaeth
- Teithio a chynhaliaeth gan gynnwys llety
- Costau staff a ffioedd proffesiynol
- Costau cynhyrchu a hyrwyddo
- Grantiau bach o hyd at £100,000; Grantiau mawr o £100,000 i £2m

**Sylwadau penodol**
- Mae'r British Council wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ei waith. Mae hyn yn cynnwys materion fel cydraddoldeb rhywedd, sy'n flaenoriaeth o bwys i'r 'Cultural Protection Fund'.
- Os oes gan eich sefydliad chi ofynion hygyrchedd wrth ddarparu'r prosiect hwn (er enghraifft, gallai hyn gynnwys dehonglwyr iaith arwyddion neu gynorthwywyr personol), gallwch chi ofyn am gyllid ychwanegol y tu hwnt i'r grant craidd yn adran y gyllideb ar y ffurflen.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.britishcouncil.org/arts/culture-development/cultural-protection-fund**

## * 'Connections Through Culture'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Tsieinëeg

**Y math o symudedd**

- Gall prosiectau ymwneud â chyfnewid sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer artistig a chreadigol, neu â chynhyrchu cynnwys artistig a chreadigol newydd. Gall prosiectau fod yn gyfnodau preswyl celfyddydol, yn arddangosfeydd, yn berfformiadau a llwyfannu gwaith, yn gyhoeddiadau, yn weminarau ac yn gynadleddau.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob un
- Ymarfer sy'n pontio disgyblaethau

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid, gweithwyr celfyddydol a diwylliannol proffesiynol, cynrychiolwyr cydweithfeydd celfyddydol, rhwydweithiau, canolfannau a sefydliadau creadigol, ymchwilwyr o'r Deyrnas Unedig, Tsieina, neu Dde-ddwyrain Asia

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

⇒ Tsieina a De-ddwyrain Asia (Malaysia, Myanmar, Gwlad Thai neu Indonesia)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Fisâu
- Per diem
- Taliadau cydnabyddiaeth
- Llety
- Costau cynhyrchu
- Grantiau rhwng £2,000 a £20,000

**Sylwadau penodol**

- Gall y cydweithio fod yn ddigidol, wyneb yn wyneb ac yn hybrid.
- Rhaid i ymgeisydd arweiniol o'r Deyrnas Unedig enwebu ymgeisydd cyfatebol o Dde-ddwyrain Asia, neu rhaid i ymgeisydd arweiniol o Dde-ddwyrain Asia enwebu ymgeisydd cyfatebol o'r Deyrnas Unedig.
- Dylid dangos y cymorth hygyrchedd y gallai fod ei angen arnoch i gwblhau'r gweithgaredd a enwir yn y grant.
- Anogir ymgeiswyr i sicrhau cyfleoedd cyfartal yn y timau sy'n darparu'r gweithgareddau.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.britishcouncil.id/en/connections-through-culture**

**https://www.britishcouncil.cn/en/programmes/arts/connections-culture**

# Yr Adran Masnach Ryngwladol (Llywodraeth y Deyrnas Unedig)

## * 'UK Tradeshow Programme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Presenoldeb ac arddangos mewn sioeau masnach dramor

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Dim manylion (gallai gynnwys y sectorau dylunio)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Busnesau yn y Deyrnas Unedig sy'n allforio ar hyn o bryd
- Busnesau yn y Deyrnas Unedig sy'n ystyried allforio
- Rhaid i fusnesau sy'n ymgeisio fod wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn y Deyrnas Unedig i wneud cais
- Rhaid i fusnesau cymwys fod yn fusnesau bach i ganolig, gyda llai na 250 o weithwyr, wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig (heb gynnwys Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel), a rhaid iddyn naill ai:
  - fod yn gwerthu cynhyrchion neu wasanaethau sy'n tarddu'n helaeth o'r Deyrnas Unedig, neu
  - ychwanegu gwerth sylweddol at gynnyrch neu wasanaeth nad yw'n tarddu o'r Deyrnas Unedig.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

Roedd yr Adran Masnach Ryngwladol yn adolygu'r calendr o sioeau a chynadleddau masnach pan gyhoeddwyd y ddogfen hon.

**Y costau sy'n berthnasol**

Cymorth ariannol tuag at bresenoldeb mewn sioeau masnach (gan gynnwys costau teithio, costau llety, costau cynhaliaeth, costau arddangosfeydd ffeiriau masnach)

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.gov.uk/guidance/uk-tradeshow-programme#accessing-support-to-attend-overseas-trade-shows**

# Llywodraeth y Deyrnas Unedig

## * 'Turing Scheme Mobility'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Lleoliadau (isafswm o bedair wythnos / 28 diwrnod calendr, hyd at uchafswm o ddeuddeg mis)
- Cyfnewidfeydd

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau a'r dyniaethau

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Mae'r cyllid ar gael i sefydliadau yn y Deyrnas Unedig a'r Tiriogaethau Tramor Prydeinig sy'n gweithio yn y sector addysg a hyfforddiant.
- Rhaid i sefydliadau fod wedi'u cydnabod yn swyddogol fel darparwyr addysg uwch sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig neu'r Tiriogaethau Tramor Prydeinig.
- Rhaid i fyfyrwyr fod wedi'u cofrestru â darparwr addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu'r Tiriogaethau Tramor Prydeinig a rhaid iddyn nhw fod yn dilyn astudiaeth sy'n arwain at radd gydnabyddedig neu gymhwyster addysg uwch arall cydnabyddedig (hyd at ac yn cynnwys lefel doethuriaeth), neu rhaid iddyn nhw fod yn raddedigion addysg uwch diweddar yn y sefydliad sy'n cael y grant, ac maen nhw mewn sefyllfa i ddilyn hyfforddeiaeth a rhaid iddyn nhw wneud hynny a chyflawni'r hyfforddeiaeth dramor o fewn 12 mis i raddio. Nid oes angen dewis y graddedigion cyn iddyn nhw raddio.

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Nid oes cyfyngiadau o ran y wlad neu'r diriogaeth lle gall symudedd ddigwydd.

**Y costau sy'n berthnasol**

Costau teithio a chostau byw, a chyllid gweinyddol i ddarparu'r prosiectau.

**Sylwadau penodol**

Cymorth ychwanegol i'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, a'r rheini sydd o gefndiroedd difreintiedig.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.turing-scheme.org.uk/funding-opportunities/**

# Lloegr

## Arts Council England

### * 'National Lottery Project Grants'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, BSL

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl
- Mynychu cynadleddau a digwyddiadau rhyngweithio rhyngwladol
- Datblygu'r farchnad
- Mynd â gwaith a grëwyd yn Lloegr ar daith yn rhyngwladol a dod â gwaith rhyngwladol ar daith i leoliadau a gwyliau yn Lloegr
- Grantiau teithio (yn ddilys at wahanol ddibenion)
- Cydweithio trawsgenedlaethol ar brosiectau
- Ymchwil i ddatblygu syniadau, gwaith neu raglenni newydd ar gyfer cydweithio, teithio a chyfnewidfeydd rhyngwladol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Celfyddydau cyfunol gan gynnwys gwyliau a charnifalau
- Dawns
- Llyfrgelloedd
- Llenyddiaeth
- Amgueddfeydd
- Cerddoriaeth
- Theatr
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Ar agor i unrhyw unigolyn neu sefydliad yn Lloegr neu'r Deyrnas Unedig yn ehangach ac sydd â chyfrif banc yn y Deyrnas Unedig
- Ymarferwyr unigol, sefydliadau celfyddydol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Byd-eang, gan gynnwys unrhyw weithgarwch sy'n cael ei gynnal yn ehangach yn y Deyrnas Unedig

⟸ Lloegr

Cyfnodau preswyl tramor i weithwyr creadigol yn Lloegr

Cyfnewidfeydd rhwng ymarferwyr creadigol a diwylliannol a/neu sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn Lloegr a phartneriaid rhyngwladol

Gwaith ymchwil a datblygu rhyngwladol ar gyfer prosiect sydd i'w gynhyrchu yn Lloegr

**Blaenoriaethau eraill** Dim ond os gellir dangos y manteision mwy hirdymor (gan gynnwys datblygu gyrfa) i artistiaid, unigolion a/neu gymunedau yn Lloegr y bydd ACE yn ariannu gweithgareddau neu ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal y tu allan i Loegr.

**Y costau sy'n berthnasol** Gan amlaf gallwn ariannu hyd at 90% o gyfanswm cost prosiect.

- Llety
- Teithio dros ffiniau
- Fisâu a thrwyddedau gwaith
- Per diem
- Cyfraniadau tuag at deithio sy'n fwy llesol i'r amgylchedd
- Eraill: Trwyddedau ATA, costau cludo nwyddau, yswiriant, costau danfon nwyddau, costau wrth gefn
- Maint y grantiau: £1,000 i £30,000 ; £30,000 i £100,000 ;
- £100,000+ (mae angen caniatâd i wneud cais am y swm hwn neu swm uwch)

**Sylwadau penodol**

- O dro i dro bydd blaenoriaethau penodol am gyfnod cyfyngedig.
- Mae canllawiau ar gyfer gwneud cais ar gael mewn fersiynau BSL, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall a Phrint Mawr.
- Gellir rhoi cymorth i ymgeiswyr sydd ag anghenion hygyrchedd cyn iddyn nhw wneud cais, gan gynnwys talu costau gweithwyr cymorth hygyrchedd fel dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL), rhywun i gymryd nodiadau, neu diwtor arbenigol i roi cymorth gweinyddol.
- Gellir talu'r costau hygyrchedd personol sy'n gysylltiedig â'r prosiect.
- Mae'r ffioedd i artistiaid, gweithwyr creadigol ac arbenigwyr ar gyfer prosiectau a ariennir gan ACE yn cyd-fynd â'r codau ymarfer cydnabyddedig neu'n uwch na hynny.
- Os byddwch chi'n gwneud cais i deithio, neu am weithgarwch sy'n rhan o brosiect sydd o arwyddocâd cenedlaethol, bydd angen i chi fynegi diddordeb yn gyntaf.
- Sylw penodol am Wyliau Rhyngwladol ac Ymylol Caeredin: Nid yw ACE gan amlaf yn ariannu ceisiadau'n uniongyrchol ar gyfer mynd â gwaith i Ŵyl Ymylol Caeredin. Serch hynny, mae wedi ymrwymo i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyfnewid rhyngwladol a datblygu'r farchnad ymhlith ymarferwyr creadigol a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn Lloegr. Mae wedi cefnogi'r 'Horizon Performing Arts Showcase' ar gyfer unigolion a sefydliadau yn Lloegr i gyflwyno gwaith gan gynnwys y theatr, dawns, syrcas a chelfyddyd fyw, a hynny yng Ngŵyl Ymylol Caeredin.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.artscouncil.org.uk/ProjectGrants**

## * 'Develop Your Creative Practice'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, BSL

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl sy'n ymwneud â gwaith datblygu
- Creu rhwydweithiau
- Cydweithio
- Grantiau teithio (i archwilio gwaith ac ymarfer, gyda mentoriaid)
- Cynhyrchu gwaith newydd
- Gwaith ymchwil i archwilio arferion ac i gymryd risg neu i wneud gwaith yn fwy cynaliadwy
- Datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Celfyddydau cyfunol gan gynnwys gwyliau a charnifalau
- Dawns
- Llyfrgelloedd
- Llenyddiaeth
- Ymarfer mewn amgueddfeydd
- Cerddoriaeth
- Theatr
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yn Lloegr (yn byw yno)
- Ymarferwyr diwylliannol a chreadigol annibynnol
- Mae modd i unigolion, neu grŵp bychan o ymarferwyr sydd gan amlaf yn cydweithio, wneud cais.
- Ni all sefydliadau wneud cais, ac ni chaiff unigolion wneud cais ar ran sefydliad.
- Rhaid cael blwyddyn o brofiad o ymarfer creadigol y tu allan i gyd-destun addysg ffurfiol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill** Gellir ystyried ceisiadau gan ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes ffilm os ydyn nhw'n gweithio yn y ffurfiau celfyddydol a'r disgyblaethau sy'n cael eu cefnogi gan ACE, ac os ffilm yw cyfrwng eu gwaith.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Ffi'r artist
- Costau artistig a chreadigol
- Gorbenion
- £2,000 i £12,000 a phrosiectau hyd at flwyddyn o hyd

**Sylwadau penodol**

- Gall ymgeiswyr sydd â chostau hygyrchedd personol gynnwys y rhain yn ogystal â'r uchafswm o £12,000.
- Mae canllawiau ar gyfer gwneud cais ar gael mewn fersiynau BSL, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall a Phrint Mawr.
- Gellir rhoi cymorth i ymgeiswyr sydd ag anghenion hygyrchedd cyn iddyn nhw wneud cais, gan gynnwys talu costau gweithwyr cymorth hygyrchedd a cheisiadau mewn BSL, yn ogystal â helpu i reoli'r prosiect a'i wneud yn fwy hygyrch.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.artscouncil.org.uk/dycp**

# Arts Council England a Statens Kunstfond (Sefydliad Celfyddydol Denmarc)

## * 'International Touring and Environmental Responsibility'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cyfrifoldeb amgylcheddol
- Cydweithio rhyngwladol
- Arloesi wrth deithio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau perfformio gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau digidol, a chelfyddydau amlddisgyblaethol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Cwmnïau o unrhyw faint yn y maes celfyddydau perfformio sy'n teithio
- Lleoliadau neu wyliau yn y maes celfyddydau perfformio
- Wedi'u lleoli yn Lloegr neu Ddenmarc

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Denmarc
⇐ Lloegr

**Blaenoriaethau eraill**

- Bydd 20 o ymgeiswyr llwyddiannus (10 yn Lloegr a 10 yn Nenmarc) yn elwa o raglen ar-lein ryngweithiol sy'n para 3 mis dan arweiniad Julie's Bicycle
- Yn dilyn y rhaglen ar-lein, bydd cyfranogwyr yn cael gwahoddiad i wneud cais am gyllid, mewn partneriaeth â'u cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig neu Ddenmarc. Bydd hyd at 4 prosiect yn cael hyd at £20,000 o arian sbarduno ar gyfer cysyniadau sy'n deillio o'r rhaglen.
- Bydd y prosiectau a ddewisir yn cael cymorth gan Julie's Bicycle i'w helpu i ddatblygu a chyflwyno'r cysyniadau ymhellach.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Creu cynnwys artistig
- Archwilio modelau cyflwyno a dosbarthu newydd
- Ymchwil a datblygu

**Sylwadau penodol**

Dylai fod gan ymgeiswyr eisoes rywfaint o brofiad o gydweithio rhyngwladol ac o deithio, a dylen nhw fod yn sefydliadau bach i ganolig eu maint

**Gwelwyd ddiwethaf** 31/03/2021

**https://www.artscouncil.org.uk/our-open-funds/international-touring-and-environmental-responsibility-fund/**

# Arts Council England, Gweinyddiaeth Ddiwylliant yr Eidal (yr Adran Celfyddydau Perfformio), yr Italian Cultural Institute of London, a'r British Council

## * 'Open Dialogo'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Eidaleg

**Y math o symudedd**

- Cyfnewid diwylliannol dwyochrog
- Rhannu rhwng artistiaid sydd ag anableddau (a heb anableddau)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Dawns gyfoes
- Amlddisgyblaethol gyda dawns fel y brif ffurf gelfyddydol
- Anabledd a chreadigrwydd cynhwysol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yn Lloegr neu'r Eidal
- Lleoliadau, cwmnïau neu artistiaid unigol
- Rhaid i rywun sydd ag anableddau arwain y prosiect a rhaid cael cynrychiolaeth o 50% fan lleiaf o bobl sydd ag anableddau

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Lloegr neu'r Eidal

⇐ Lloegr neu'r Eidal

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid i'r gweithgarwch arfaethedig fod wyneb yn wyneb, oni bai bod rhesymau y gellir eu cyfiawnhau dros weithio hybrid
- Rhaid i'r lleoliad sy'n lletya fod yn hygyrch i holl gyfranogwyr y prosiect, gyda llety addas a thrafnidiaeth

**Y costau sy'n berthnasol**

Gall prosiect gael hyd at £10,500 (neu €12,000). Rhaid i hyn dalu am yr holl gostau fel ffioedd artistiaid, costau teithio, llety a chynhaliaeth, ac unrhyw gostau llogi lleoliadau, hygyrchedd a chyfieithu.

**Sylwadau penodol**

- Nid oes yn rhaid i'r prosiect gael arian cyfatebol o ffynonellau eraill.
- Wedi'i guradu gan Stopgap Dance Company, ac mae modd cysylltu â nhw i gael cymorth gyda'r cais ac i helpu i ddod o hyd i bartner yn Lloegr neu yn yr Eidal.

**Gwelwyd ddiwethaf** 31/03/2023

**https://www.stopgapdance.com/open-dialogo/open-dialogo-artist-residencies/**

# Gogledd Iwerddon

## Arts Council of Northern Ireland

### * 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Travel Awards'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau teithio (teithio o Ogledd Iwerddon)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth a phob math o ymarfer

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon
- Artistiaid unigol a grwpiau cerddorol sydd wedi ennill eu plwyf (hyd at 4 aelod)
- Artistiaid, o bob disgyblaeth ac sy'n gwneud pob math o ymarfer, sydd wedi cyfrannu at weithgarwch artistig yng Ngogledd Iwerddon am gyfnod o flwyddyn fan lleiaf yn y pum mlynedd ddiwethaf.
- Mewn nifer cyfyngedig o achosion, gall staff technegol / gweinyddol unigol mewn cwmnïau artistig proffesiynol fod yn gymwys hefyd.

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid cael tystiolaeth o wahoddiad gan sefydliad sy'n lletya yn y wlad y mae'r artistiaid yn bwriadu teithio iddi.
- Dylai artistiaid, bandiau a rheolwyr sydd wedi'u gwahodd i chwarae mewn gŵyl neu gynhadledd arddangos ryngwladol yng Ngogledd America neu Ewrop (er enghraifft, SXSW, WOMEX, Folk Alliance International, Classical: Next neu Jazz Ahead) wneud cais i'r Gronfa Arddangos Rhyngwladol (ISF) sydd yng ngofal Sefydliad PRS for Music, mewn partneriaeth ag Arts Council of Northern Ireland ac Invest Northern Ireland.
- Crybwyllir gofynion penodol ar gyfer israddedigion, ôl-raddedigion ac ymgeiswyr sy'n astudio at radd Feistr neu PhD.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros y ffin o Ogledd Iwerddon
- Per diem a threuliau eraill os yw'r costau teithio yn is na chyfradd safonol y costau teithio

**Sylwadau penodol**

- Gellir gofyn am y canllawiau i wneud cais mewn fformat print mawr neu fformatau hygyrch eraill.
- Mae modd i ymgeiswyr B/byddar, anabl a niwroamrywiol ofyn am gyngor a chymorth penodol i gwblhau'r cais, a hynny gan The University of Atypical.

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**http://artscouncil-ni.org/funding/scheme/travel-awards**

## * 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Minority Ethnic Residency & Mentoring Programme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl
- Gwaith ymchwil
- Hyfforddiant
- Rhwydweithio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth a phob math o ymarfer. Gall y ffurfiau celfyddydol gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: y celfyddydau gweledol, crefft, celf gyhoeddus, theatr, drama a dawns, llenyddiaeth, cerddoriaeth, opera a'r celfyddydau traddodiadol, celfyddydau cymunedol/cyfranogol, a'r celfyddydau mewn iechyd.

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn byw yng Ngogledd Iwerddon
- Artistiaid unigol o gefndiroedd ethnig leiafrifol a chefndir mudwyr, gan gynnwys pobl sydd angen eu gwarchod yn rhyngwladol.
- Ymarferwyr creadigol a gweinyddwyr celfyddydol o gefndiroedd ethnig leiafrifol a chefndir mudwyr.
- Wedi cyfrannu at weithgareddau artistig am o leiaf ddwy flynedd.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Gallwch wneud cais i fwy nag un cynllun, ond dim ond un grant mewn unrhyw rownd gyllido y byddwch chi'n ei gael.
- Mae gweithwyr cyrff statudol (gan gynnwys prifysgolion), israddedigion ac ôl-raddedigion yn gymwys i wneud cais ond rhaid iddyn nhw ddangos nad yw eu cynnig yn gysylltiedig â'u cyflogwr ac/neu â'u hastudiaethau academaidd.
- Nid oes modd rhoi cyllid i fentora pobl eraill.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio (yn lleol a rhyngwladol)
- Costau preswyl
- Llety a chynhaliaeth
- Cyrsiau hyfforddiant a datblygu proffesiynol
- Ffioedd artistig a thechnegol
- Llogi lleoliadau
- Eraill: cyfieithu, dogfennau, costau gofal plant, cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r cynnig
- Yr uchafswm y gellir ei roi: hyd at £5,000

**Sylwadau penodol**

- Gellir gofyn am y canllawiau i wneud cais mewn fformat print mawr neu fformatau hygyrch eraill.
- Mae modd i ymgeiswyr B/byddar, anabl a niwroamrywiol ofyn am gyngor a chymorth penodol i gwblhau'r cais, a hynny gan The University of Atypical.
- Mae modd talu costau gofal plant.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**http://artscouncil-ni.org/funding/scheme/siap-minority-ethnic-residency-mentoring-programme**

## * 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Major Individuals Award'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Datblygu prosiectau
- Gwaith ymchwil
- Datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth a phob math o ymarfer. Gall y ffurfiau celfyddydol gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: y celfyddydau gweledol, crefft, celf gyhoeddus, theatr, drama a dawns, llenyddiaeth, cerddoriaeth, opera a'r celfyddydau traddodiadol, celfyddydau cymunedol/cyfranogol, a'r celfyddydau mewn iechyd.

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi cyfrannu at weithgarwch artistig yng Ngogledd Iwerddon am gyfnod o flwyddyn fan lleiaf yn y pum mlynedd ddiwethaf.
- Artistiaid sy'n gweithio ym mhob disgyblaeth ac sy'n gwneud pob math o ymarfer ond sydd heb gael dyfarniad mawr o'r blaen ac sydd wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol neu ryngwladol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Gallwch wneud cais i fwy nag un cynllun, ond dim ond un grant mewn unrhyw rownd gyllido y byddwch chi'n ei gael.
- Mae gweithwyr cyrff statudol, israddedigion ac ôl-raddedigion yn gymwys i wneud cais ond rhaid iddyn nhw ddangos bod y cyllid y maen nhw'n gofyn amdano ar gyfer gwaith/costau nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'u cyflogwr ac/neu â'u gwaith neu'u hastudiaethau academaidd. Rhaid iddyn nhw gyflwyno tystiolaeth o hyn ar ffurf llythyr ar bapur â phennawd gan Bennaeth eu Hadran.
- Rhaid i ymgeiswyr posibl gysylltu â swyddog perthnasol y ffurf gelfyddydol i drafod y cais cyn cyflwyno unrhyw gais am y 'Major Individual Awards'.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio (yn lleol a rhyngwladol)
- Llety a chynhaliaeth
- Cyrsiau hyfforddiant a datblygu proffesiynol
- Ffioedd artistig a thechnegol
- Llogi lleoliadau
- Eraill: cyfieithu, dogfennau, costau gofal plant, cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r cynnig
- Grant o hyd at £15,000, ac nid oes angen cyllid partneriaeth

**Sylwadau penodol**

- Gellir gofyn am y canllawiau i wneud cais mewn fformat print mawr neu fformatau hygyrch eraill.
- Mae modd i ymgeiswyr B/byddar, anabl a niwroamrywiol ofyn am gyngor a chymorth penodol i gwblhau'r cais, a hynny gan The University of Atypical
- Mae modd talu costau gofal plant.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**http://artscouncil-ni.org/funding/scheme/siap-major-individuals-award**

## * 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - General Awards'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Datblygu prosiectau
- Ymchwil
- Datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth a phob math o ymarfer. Gall y ffurfiau celfyddydol gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: y celfyddydau gweledol, crefft, celf gyhoeddus, theatr, drama a dawns, llenyddiaeth, cerddoriaeth, opera a'r celfyddydau traddodiadol, celfyddydau cymunedol/cyfranogol, a'r celfyddydau mewn iechyd.

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi cyfrannu at weithgarwch artistig yng Ngogledd Iwerddon am gyfnod o flwyddyn fan lleiaf yn y pum mlynedd ddiwethaf.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Anogir ceisiadau ar y cyd gan artistiaid unigol sy'n cydweithio ar brosiectau/gweithgareddau sy'n pontio disgyblaethau.
- Gallwch wneud cais i fwy nag un cynllun, ond dim ond un grant mewn unrhyw rownd gyllido y byddwch chi'n ei gael.
- Mae gweithwyr cyrff statudol, israddedigion ac ôl-raddedigion yn gymwys i wneud cais ond rhaid iddyn nhw ddangos bod y cyllid y maen nhw'n gofyn amdano ar gyfer gwaith/costau nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'u cyflogwr ac/neu â'u gwaith neu'u hastudiaethau academaidd. Rhaid iddyn nhw gyflwyno tystiolaeth o hyn ar ffurf llythyr ar bapur â phennawd gan Bennaeth eu Hadran.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio (yn lleol a rhyngwladol)
- Cynhaliaeth
- Cyrsiau hyfforddiant a datblygu proffesiynol
- Ffioedd artistig a thechnegol
- Llogi lleoliadau
- Eraill: cyfieithu, dogfennau, cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r cynnig
- Grant o hyd at £5,000

**Sylwadau penodol**

- Gellir gofyn am y canllawiau i wneud cais mewn fformat print mawr neu fformatau hygyrch eraill.
- Mae modd i ymgeiswyr B/byddar, anabl a niwroamrywiol ofyn am gyngor a chymorth penodol i gwblhau'r cais, a hynny gan The University of Atypical

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**http://artscouncil-ni.org/funding/scheme/siap-major-individuals-award**

## * 'Support for Individual Artists Programme (SIAP) - Artists Career Enhancement Scheme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Datblygu proffesiynol, hyfforddiant, mentora

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol (gan gynnwys ceisiadau gan guraduron ym maes y celfyddydau gweledol)
- Crefft
- Y celfyddydau cymunedol a chyfranogol
- Llenyddiaeth
- Cerddoriaeth
- Y celfyddydau perfformio
- Celfyddydau rhyngddiwylliannol a thraddodiadol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn byw yng Ngogledd Iwerddon
- Artistiaid sydd wedi cyfrannu at weithgarwch artistig yng Ngogledd Iwerddon am gyfnod o flwyddyn fan lleiaf yn y pum mlynedd ddiwethaf.
- Gall curaduron ym maes y celfyddydau gweledol wneud cais hefyd

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid i ymgeiswyr posibl gysylltu â swyddog perthnasol y ffurf gelfyddydol i drafod y cais cyn ei gyflwyno.
- Gallwch wneud cais i fwy nag un cynllun, ond dim ond un grant mewn unrhyw rownd gyllido y byddwch chi'n ei gael.
- Mae gweithwyr cyrff statudol, israddedigion ac ôl-raddedigion yn gymwys i wneud cais ond rhaid iddyn nhw ddangos bod y cyllid y maen nhw'n gofyn amdano ar gyfer gwaith/costau nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'u cyflogwr ac/neu â'u gwaith neu'u hastudiaethau academaidd. Rhaid iddyn nhw gyflwyno tystiolaeth o hyn ar ffurf llythyr ar bapur â phennawd gan Bennaeth eu Hadran.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio (yn lleol a rhyngwladol)
- Cynhaliaeth
- Cyrsiau hyfforddiant a datblygu proffesiynol
- Ffioedd artistig a thechnegol
- Llogi lleoliadau
- Eraill: cyfieithu, dogfennau, costau gofal plant, cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r cynnig
- Grant o hyd at £7,000 ar gyfer pob ffurf gelfyddydol

**Sylwadau penodol**

- Gellir gofyn am y canllawiau i wneud cais mewn fformat print mawr neu fformatau hygyrch eraill.
- Mae modd i ymgeiswyr B/byddar, anabl a niwroamrywiol ofyn am gyngor a chymorth penodol i gwblhau'r cais, a hynny gan The University of Atypical
- Mae modd talu costau gofal plant.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**http://artscouncil-ni.org/funding/scheme/siap-major-individuals-award**

## Arts Council of Northern Ireland and British Council

### * 'Support for Individual Artist Programme (SIAP) - Artists International Development Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl
- Datblygu ymarfer artistig drwy weithio yn rhyngwladol
- Datblygu gwaith rhyngwladol ar y cyd gyda'r nod hirdymor o ddatblygu artistiaid a chynulleidfaoedd yn rhyngwladol, a meithrin proffil
- Grant i rwydweithio a meithrin perthnasau

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Celfyddydau cyfunol
- Llenyddiaeth
- Cerddoriaeth
- Drama
- Dawns
- Y celfyddydau gweledol
- Crefft

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- nigolion sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon (yn byw yno)
- ▸ Mae'r rhaglen yn cefnogi cyfleoedd datblygu rhyngwladol cynnar i unigolion, gweithwyr llawrydd, artistiaid llawrydd a sefydliadau:
  - Sydd wedi cael cydnabyddiaeth am eu gwaith yng Ngogledd Iwerddon
  - Sydd wedi cael profiad rhyngwladol helaeth
  - Y bydd eu gwaith yn elwa o lansio gwell rhwydweithiau rhyngwladol – naill ai'n artistig neu o ran datblygu cynulleidfa ar gyfer eu gwaith
  - Sy'n gallu dangos diddordeb yn eu gwaith gan bartner/lletywr tramor
- Gall artistiaid unigol, gan gynnwys cynhyrchwyr creadigol, curaduron a golygyddion, wneud cais.
- Mae gweithwyr cyrff statudol, israddedigion ac ôl-raddedigion yn gymwys i wneud cais ond rhaid iddyn nhw ddangos bod y cyllid y maen nhw'n gofyn amdano ar gyfer gwaith/costau nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'u cyflogwr ac/neu â'u gwaith neu'u hastudiaethau academaidd.

**Cyrchfan(nau)**
⟹ Byd-eang

Rhywfaint o flaenoriaethu Datblygiad Rhyngwladol Artistiaid. Bydd grantiau'r gronfa ar gael i artistiaid a sefydliadau celfyddydol yng Ngogledd Iwerddon sydd â diddordeb mewn cysylltu ag artistiaid ac ymwneud â chyfleoedd celfyddydol yn y gwledydd sy'n rhan o'r cynllun Cymorth Datblygu Swyddogol.

**Blaenoriaethau eraill**
- Mewn nifer cyfyngedig o achosion, gall staff technegol / gweinyddol unigol mewn cwmnïau artistig proffesiynol fod yn gymwys hefyd.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Costau preswyl (AIDF yn unig)
- Cynhaliaeth
- Ffioedd artistig a thechnegol
- Llogi lleoliadau
- Cyfarpar technegol a TG
- Deunyddiau celf
- Grantiau AIDF o hyd at £7,000

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://nireland.britishcouncil.org/programmes/arts/artists-international-development-fund**

# Yr Alban

## Creative Scotland

### * 'National Lottery Open Fund for Organisations'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaeleg, BSL

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl
- Grantiau i brosiectau neu grantiau cynhyrchu
- Grantiau rhwydweithio
- Grantiau ymchwil a datblygu
- Rhaglenni meithrin capasiti / datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol ar wahân i ffilm

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Gall unrhyw fath o sefydliad artistig, creadigol neu ddiwylliannol sefydledig sydd wedi'i leoli yn yr Alban wneud cais.
- Gall sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Alban ond sydd â chylch gwaith drwy'r Deyrnas Unedig gyfan wneud cais os yw'r cyllid ar gyfer gweithgarwch sydd i'w gynnal yn yr Alban, ac a fydd o fudd uniongyrchol i bobl yn yr Alban.
- Er mwyn i ymgeiswyr eraill sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Alban allu gwneud cais, rhaid iddyn nhw fod yn darparu gweithgarwch sydd i'w gynnal yn yr Alban, rhaid iddyn nhw weithio gyda phartneriaid sydd wedi'u lleoli yn yr Alban, a rhaid iddyn nhw allu dangos bod pobl sydd wedi'u lleoli yma'n elwa'n uniongyrchol o'u gwaith.
- Rhaid i bob sefydliad sy'n ymgeisio gael cyfrif banc yn y Deyrnas Unedig sydd â'r un enw â'r sefydliad hwnnw.
- Ni ellir rhoi cyllid i weithgarwch sydd i'w gynnal y tu allan i'r Alban ac sydd wedi'i arwain gan ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r  Alban, heb bartneriaid o'r Alban yn rhan o'r cais.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Mae Ymgysylltu, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Technoleg Ddigidol, Gwaith Teg a Chynaliadwyedd Amgylcheddol yn flaenoriaethau o bwys i Creative Scotland. Cefnogir gweithgarwch sy'n debygol o gyfrannu at well cynaliadwyedd sefydliadol, mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd, mwy o gynaliadwyedd amgylcheddol, neu ddatblygu gwybodaeth/sgiliau o fewn y sefydliad; bydd gwaith i ddatblygu cynulleidfaoedd, ehangu cyfranogi ac ymgysylltu â gweithgarwch creadigol hefyd yn cael ei gefnogi.
- Cyllidir gweithgarwch sy'n para hyd at 18 mis.
- O fudd i gynulleidfaoedd a chymunedau lleol: gan mai'r Loteri Genedlaethol sy'n rhoi'r arian, a chan mai'r nod yw cefnogi gweithgarwch sy'n arwain at y budd cyhoeddus mwyaf, bydd unrhyw brosiect sy'n chwilio am gymorth tuag at weithgarwch masnachol lle mai creu elw yw'r prif ddiben yn annhebygol o fod yn llwyddiannus.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Fisâu (pan fydd hynny'n berthnasol)
- Per diem
- Taliadau cydnabyddiaeth
- Llety
- Costau cynhyrchu
- Costau eraill pan fydd y trefnwyr yn talu (er enghraifft: cyfieithu)
- Costau cynhyrchu
- Ceisiadau am rhwng £1,000 a £100,000 ar gyfer prosiectau neu raglenni sy'n ymwneud â gweithgarwch creadigol sy'n para hyd at 18 mis

**Sylwadau penodol**

- Mae'r canllawiau ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau hygyrch er mwyn rhoi cymorth cyn ymgeisio i gynifer o ymgeiswyr â phosibl.
- Mae canllawiau ar gyfer ymgeisio ar gael mewn fersiynau Gaeleg, Hawdd i'w Deall, Print Mawr a Thestun Plaen, ac mae cymorth arbennig ar gael i ddefnyddwyr BSL byddar.
- Gellir rhoi cymorth hygyrchedd i ymgeiswyr anabl cyn iddyn nhw wneud cais, a hwnnw wedi'i deilwra'n unol â cheisiadau unigol (e.e. Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig).
- Gellir talu costau ychwanegol ar gyfer materion sy'n ymwneud â hygyrchedd personol neu hygyrchedd y prosiect, cyn belled â bod hynny'n gymwys.
- Gellir ysgrifennu ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.creativescotland.com/funding/funding-programmes/open-funding/national-lottery-open-fund-for-organisations**

## * 'National Lottery Extended Programme Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaeleg, BSL

**Y math o symudedd**

- Grantiau datblygu'r farchnad
- Grantiau teithio
- Grantiau prosiectau neu grantiau cynhyrchu
- Rhaglenni meithrin capasiti / datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol ar wahân i ffilm

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Gall unrhyw fath o sefydliad artistig, creadigol neu ddiwylliannol sefydledig nad yw'n dosbarthu elw ac sydd wedi'i leoli yn yr Alban wneud cais.
- Gall sefydliadau nad ydyn nhw'n dosbarthu elw ac sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Alban ond sydd â chylch gwaith drwy'r Deyrnas Unedig gyfan wneud cais os yw'r cyllid ar gyfer gweithgarwch sydd i'w gynnal yn yr Alban, ac a fydd o fudd uniongyrchol i bobl yn yr Alban.
- Er mwyn i ymgeiswyr eraill nad ydyn nhw'n gwneud elw ac sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Alban allu gwneud cais, rhaid iddyn nhw fod yn darparu gweithgarwch sydd i'w gynnal yn yr Alban, rhaid iddyn nhw weithio gyda phartneriaid sydd wedi'u lleoli yn yr Alban, a rhaid iddyn nhw allu dangos bod eu gwaith o fudd uniongyrchol i'r rheini sydd wedi'u lleoli yma (boed yn gynulleidfaoedd neu'n gymunedau creadigol).
- Rhaid i bob sefydliad sy'n ymgeisio gael cyfrif banc yn y Deyrnas Unedig sydd â'r un enw â'r sefydliad hwnnw.
- Ni ellir rhoi cyllid i weithgarwch sydd i'w gynnal y tu allan i'r Alban ac sydd wedi'i arwain gan ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Alban, heb bartneriaid o'r Alban yn rhan o'r cais.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Mae Ymgysylltu, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Technoleg Ddigidol, Gwaith Teg a Chynaliadwyedd Amgylcheddol yn flaenoriaethau o bwys i Creative Scotland.
- Cyllidir gweithgarwch sy'n para hyd at 18 mis i 24 mis.
- Gan mai'r Loteri Genedlaethol sy'n rhoi'r arian, a chan mai'r nod yw cefnogi gweithgarwch sy'n arwain at y budd cyhoeddus mwyaf, bydd unrhyw brosiect sy'n chwilio am gymorth tuag at weithgarwch masnachol lle mai creu elw yw'r prif ddiben yn annhebygol o fod yn llwyddiannus.
- Fel rhan o Gytundeb Bute House Llywodraeth yr Alban, bydd gofyn i bob sefydliad sy'n gwneud cais am gyllid gan Creative Scotland o 1 Gorffennaf 2023 dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl aelodau o staff y mae'n eu cyflogi'n uniongyrchol.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Fisâu (pan fydd hynny'n berthnasol)
- Per diem
- Taliadau cydnabyddiaeth
- Llety
- Costau cynhyrchu
- Costau eraill pan fydd y trefnwyr yn talu (er enghraifft: cyfieithu)
- Costau cynhyrchu
- Ceisiadau am rhwng £100,000 a £200,000 ar gyfer prosiectau neu raglenni sy'n ymwneud â gweithgarwch creadigol sy'n para hyd at 18 mis i 24 mis

**Sylwadau penodol**

- Mae'r canllawiau ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau hygyrch er mwyn rhoi cymorth cyn ymgeisio i gynifer o ymgeiswyr â phosibl.
- Mae canllawiau ar gyfer ymgeisio ar gael mewn fersiynau Gaeleg, Hawdd i'w Deall, Print Mawr a Thestun Plaen, ac mae cymorth arbennig ar gael i ddefnyddwyr BSL byddar.
- Gellir rhoi cymorth hygyrchedd i ymgeiswyr anabl cyn iddyn nhw wneud cais, a hwnnw wedi'i deilwra'n unol â cheisiadau unigol (e.e. Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig).
- Gellir talu costau ychwanegol ar gyfer materion sy'n ymwneud â hygyrchedd personol neu hygyrchedd y prosiect, cyn belled â bod hynny'n gymwys.
- Gellir ysgrifennu ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.creativescotland.com/funding/funding-programmes/open-funding/national-lottery-open-fund-for-organisations**

## * 'Open Fund for Individuals'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaeleg, BSL

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl
- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, ffeiriau masnach, cynadleddau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau i 'fynd i weld' neu grantiau archwilio tymor byr
- Grantiau datblygu'r farchnad
- Cymhellion i deithio
- Grantiau teithio
- Grantiau prosiectau neu grantiau cynhyrchu
- Grantiau ymchwil
- Rhaglenni meithrin capasiti / datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Pob ffurf gelfyddydol ar wahân i ffilm

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid ac ymarferwyr creadigol llawrydd a hunangyflogedig sy'n byw yn yr Alban ac sy'n 18 oed neu'n hŷn

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**
- Mwy o bwyslais ar gydraddoldeb, gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Ariannu gweithgarwch sy'n para hyd at 24 mis.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio dros ffiniau
- Fisâu (pan fydd hynny'n berthnasol)
- Per diem
- Taliadau cydnabyddiaeth
- Llety
- Costau cynhyrchu
- Costau hygyrchedd
- Gorbenion hanfodol
- Costau cyfarpar
- Grantiau rhwng £500 a £100,000 gan dalu 100% o'r costau

**Sylwadau penodol**
- Mae canllawiau ar gyfer ymgeisio ar gael mewn fersiynau Gaeleg, Hawdd i'w Deall, Print Mawr a Thestun Plaen, ac mae cymorth arbennig ar gael i ddefnyddwyr BSL byddar.
- Gellir rhoi cymorth hygyrchedd i ymgeiswyr anabl cyn iddyn nhw wneud cais, a hwnnw wedi'i deilwra'n unol â cheisiadau unigol (e.e. Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig).
- Gellir talu costau ychwanegol ar gyfer materion sy'n ymwneud â hygyrchedd personol neu hygyrchedd y prosiect, cyn belled â bod hynny'n gymwys.
- Gellir ysgrifennu ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.creativescotland.com/funding/funding-programmes/open-funding/open-fund-for-individuals**

## * 'Go See Share Creative Industries Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaeleg, BSL

**Y math o symudedd**

- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, ffeiriau masnach, cynadleddau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau i 'fynd i weld' neu grantiau archwilio tymor byr

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol
- Y celfyddydau perfformio
- Crefftau
- Tecstiliau
- Ffasiwn
- Ffotograffiaeth
- Cerddoriaeth
- Ysgrifennu a chyhoeddi
- Dylunio
- Ffilm, teledu, fideo, radio a gemau cyfrifiadurol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Rhaid i'r holl ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yn yr Alban.
- Artistiaid unigol, ymarferwyr creadigol, cynrychiolwyr sefydliadau celfyddydol a busnesau creadigol sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Mwy o bwyslais ar gydraddoldeb, gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Rhan hanfodol o unrhyw ddyfarniad 'Go See Share' gan Creative Scotland yw bod angen i bawb sy'n cael cyllid rannu'r hyn a ddysgwyd ar ôl unrhyw daith drwy wahanol gyfryngau.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Llety
- Costau marchnata
- Costau hygyrchedd
- Tocynnau i gynadleddau
- Grantiau rhwng £3,000 a £10,000

**Sylwadau penodol**

- Mae canllawiau ar gyfer ymgeisio ar gael mewn fersiynau Gaeleg, Hawdd i'w Deall, Print Mawr a Thestun Plaen, ac mae cymorth arbennig ar gael i ddefnyddwyr BSL byddar.
- Gellir rhoi cymorth hygyrchedd i ymgeiswyr anabl cyn iddyn nhw wneud cais, a hwnnw wedi'i deilwra'n unol â cheisiadau unigol (e.e. Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig).
- Mae angen amlinellu beth yn union yw'r costau ychwanegol ar gyfer gofynion hygyrchedd neu gostau gofal plant (sy'n mynd â'ch cais dros y trothwy uchaf o £10k) yn ychwanegol at y costau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch.
- Gellir ysgrifennu ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.creativescotland.com/funding/funding-programmes/targeted-funding/go-see-share-creative-industries-fund**

# Creative Scotland, Edinburgh Festival Fringe Society, Federation of Scottish Theatre, Scottish Music Centre

## * 'Made in Scotland Funding - Onward International Touring'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, ffeiriau masnach, cynadleddau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau teithio (at wahanol ddibenion)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau perfformio

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yn yr Alban
- Unrhyw unigolyn neu gwmni sydd wedi'i leoli yn yr Alban ac sydd wedi cyflwyno darn proffesiynol o theatr, dawns neu gerddoriaeth yng Ngŵyl Ymylol Caeredin rhwng 2016 a 2022 (y dyddiadau yn y canllawiau ar gyfer y rhaglen bresennol, pan gyhoeddwyd y ddogfen hon), a'r darn hwnnw o ganlyniad wedi'i weld a'i raglennu gan gyflwynydd rhyngwladol am y tro cyntaf

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill** Datganiad o gefnogaeth gan yr hyrwyddwr rhyngwladol, neu dystiolaeth arall o gyfleoedd teithio gyda manylion y cytundeb ariannol sy'n cael ei gynnig..

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Fisâu
- Cludo nwyddau yn rhyngwladol
- Cyfieithu a deunyddiau marchnata
- Telir costau gwerth hyd at £10,000

**Sylwadau penodol**

- Ar gais, mae prif ddeunyddiau cyhoeddedig y cynllun i gyd, gan gynnwys y canllawiau ariannu a'r ffurflenni cais, ar gael mewn fformatau gwahanol gan gynnwys cyfieithiadau.
- Cynigir cymorth hygyrchedd i ymgeiswyr anabl, a hwnnw wedi'i deilwra'n unol â cheisiadau unigol (e.e. Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig).
- Gall tîm Cydraddoldeb Creative Scotland gynnig cymorth ychwanegol un-i-un i ymgeiswyr sydd â gofynion hygyrchedd.
- Gellir derbyn ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.creativescotland.com/funding/funding-programmes/targeted-funding/made-in-scotland**

## Screen Scotland

### * 'Market and Festival Attendance Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, ffeiriau masnach, cynadleddau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau teithio (at wahanol ddibenion)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ffilm

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn byw ac yn gweithio yn yr Alban neu'n dod o'r Alban ond wedi'u lleoli yn rhywle arall
- Awduron proffesiynol sy'n ymarfer ac wedi'u gwahodd i ddigwyddiad rhyngwladol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhoddir blaenoriaeth i ddigwyddiadau hyrwyddo sy'n targedu'r cyhoedd.
- Ni flaenoriaethir digwyddiadau academaidd oni bai bod tystiolaeth glir o hyrwyddo gwaith llenyddol i gynulleidfa/ darllenwyr cyffredinol.
- Mae angen llythyr gwahodd gan y sefydliad lletya yn dangos ei gefnogaeth.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Cynhaliaeth
- Llety
- Costau hygyrchedd, gan gynnwys costau gofal plant a thechnoleg ddigidol, os bydd angen hynny
- Eraill: ffioedd cofrestru, deunydd hyrwyddo
- Grantiau rhwng £100 a £1,500

**Sylwadau penodol**

- Rhaid dangos tystiolaeth bod y prosiect wedi cyrraedd cam datblygu addas a'i fod yn barod i'w gyflwyno i gyllidwyr, asiantau gwerthu a dosbarthwyr posibl.
- Bydd Creative Scotland yn cefnogi presenoldeb mewn gwyliau rhyngwladol ac ymwneud ar-lein â gwyliau o'r fath pan fydd y prosiect yn cael ei ddangos am y tro cyntaf a/neu yn cael ei sgrinio mewn cystadleuaeth, a phan fydd modd dangos yn glir fanteision bod yn bresennol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall CS ystyried cefnogi presenoldeb mewn gwyliau nad ydyn nhw'n gymwys os gallwch chi ddangos yn glir fanteision bod yn bresennol a sut mae hynny'n cyd-fynd â dibenion y gronfa hon.
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: mae Creative Scotland yn credu bod gwir gynrychiolaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin yn hanfodol er mwyn i'r sector sgrin fod yn gynaliadwy ac yn deg.
- Ar gais, mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys cyfieithiadau. Rydyn ni'n cynnig cymorth i ymgeiswyr anabl, wedi'i deilwra yn unol â cheisiadau unigol. Mae'r cymorth yn cynnwys Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Gall swyddogion gynnig cyngor i ymgeiswyr newydd a'u cefnogi i wneud cais. Gall y tîm Cydraddoldeb gynnig cymorth ychwanegol un-i-un i ymgeiswyr sydd â gofynion hygyrchedd. Sylwch y byddwn ni'n derbyn ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.screen.scot/skills-and-talent/talent-development**

## * 'Professional Development Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, ffeiriau masnach, cynadleddau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau teithio (at wahanol ddibenion)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ffilm

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn byw ac yn gweithio yn yr Alban neu'n dod o'r Alban ond wedi'u lleoli yn rhywle arall
- Awduron proffesiynol sy'n ymarfer ac wedi'u gwahodd i ddigwyddiad rhyngwladol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhoddir blaenoriaeth i ddigwyddiadau hyrwyddo sy'n targedu'r cyhoedd.
- Ni flaenoriaethir digwyddiadau academaidd oni bai bod tystiolaeth glir o hyrwyddo gwaith llenyddol i gynulleidfa/ darllenwyr cyffredinol.
- Mae angen llythyr gwahodd gan y sefydliad lletya yn dangos ei gefnogaeth.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Cynhaliaeth
- Llety
- Costau hygyrchedd, gan gynnwys costau gofal plant a thechnoleg ddigidol, os bydd angen hynny
- Eraill: ffioedd cofrestru, deunydd hyrwyddo
- Grantiau rhwng £100 a £1,500

**Sylwadau penodol**

- Rhaid dangos tystiolaeth bod y prosiect wedi cyrraedd cam datblygu addas a'i fod yn barod i'w gyflwyno i gyllidwyr, asiantau gwerthu a dosbarthwyr posibl.
- Bydd Creative Scotland yn cefnogi presenoldeb mewn gwyliau rhyngwladol ac ymwneud ar-lein â gwyliau o'r fath pan fydd eich prosiectau'n cael eu dangos am y tro cyntaf a/neu yn cael eu sgrinio mewn cystadleuaeth, a phan fydd modd dangos yn glir fanteision bod yn bresennol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallwn ystyried cefnogi presenoldeb mewn gwyliau nad ydyn nhw'n gymwys os gallwch chi ddangos yn glir fanteision bod yn bresennol a sut mae hynny'n cyd-fynd â dibenion y gronfa hon.
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: mae Creative Scotland yn credu bod gwir gynrychiolaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin yn hanfodol er mwyn i'r sector sgrin fod yn gynaliadwy ac yn deg.
- Ar gais, mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys cyfieithiadau. Rydyn ni'n cynnig cymorth i ymgeiswyr anabl, wedi'i deilwra yn unol â cheisiadau unigol. Mae'r cymorth yn cynnwys Dehonglwyr Iaith Arwyddion mewn cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Gall swyddogion gynnig cyngor i ymgeiswyr newydd a'u cefnogi i wneud cais. Gall y tîm Cydraddoldeb gynnig cymorth ychwanegol un-i-un i ymgeiswyr sydd â gofynion hygyrchedd. Sylwch y byddwn ni'n derbyn ceisiadau a'r deunyddiau ategol yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg.

**Gwelwyd ddiwethaf** 25/03/2023

**https://www.screen.scot/funding-and-support/funding/professional-development-fund**

# Cymru

## Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

### * Y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar gyfer Unigolion a Sefydliadau

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Cymraeg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl (artistiaid, curaduron, awduron, cyfieithwyr, beirniaid, gweithwyr celfyddydol ac ati)
- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau i 'fynd i weld' neu grantiau archwilio tymor byr
- Grantiau datblygu'r farchnad
- Cymhellion i deithio
- Grantiau teithio (yn ddilys at wahanol ddibenion)
- Grantiau ar gyfer prosiectau neu grantiau cynhyrchu
- Grantiau ymchwil
- Rhaglenni meithrin capasiti / datblygu proffesiynol
- Ysgoloriaethau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant pellach / ôl-raddedig

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Pob un

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Sefydliadau celfyddydol a gweithwyr creadigol unigol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.
- Rhaid i sefydliadau celfyddydol sy'n ymgeisio gael Polisi Cyfleoedd Cyfartal sydd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd ddiwethaf a hwnnw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Os ydych chi'n artist unigol neu'n weithiwr creadigol llawrydd sy'n gwneud cais (gan gynnwys unig fasnachwyr ac unigolion sy'n masnachu fel busnes), rhaid i chi fodloni'r amodau'r canlynol:
  - Gallu gwneud cais yn enw cyfreithiol yr unigolyn sy'n gwneud y cais.
  - Bod â chyfrif banc yn eich enw cyfreithiol.
  - Bod dros 18 oed ac wedi'ch lleoli yng Nghymru.
  - Bod yn dilyn gyrfa artistig neu'n cael eich cyflogi'n broffesiynol yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr llawrydd.
  - Peidio â bod mewn addysg amser llawn yn yr ysgol, coleg neu'r brifysgol.
  - Gallu dangos tystiolaeth o'ch record o lwyddo wrth hwyluso neu greu gwaith artistig i'w gyflwyno i gynulleidfaoedd.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Bydd y gronfa'n blaenoriaethu buddsoddiad mewn gweithgarwch sy'n cyfrannu at y canlyniadau canlynol, yn unol â'r Strategaeth Ryngwladol, Celf Cymru: yn bont o'n bro i'n byd; ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad; a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Os ydych chi'n artist, band, cyfansoddwr caneuon, neu gynhyrchydd ac wedi'ch gwahodd i chwarae mewn cynhadledd neu ŵyl arddangos ryngwladol, efallai y byddwch chi'n gymwys i gael cyllid drwy Gronfa Arddangos Rhyngwladol Sefydliad PRS mewn partneriaeth â Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Os byddwch chi'n gymwys i gael y cyllid hwn, ni chewch chi wneud cais i'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Fisâu
- Per diem
- Ffi'r artist
- Llety
- Costau cynhyrchu
- Costau gofal plant rhesymol pan fydd angen galluogi gweithwyr llawrydd unigol i gymryd rhan yn y prosiect
- Y dyfarniad uchaf sy'n bosibl yw £7,500 ynghyd â chostau hygyrchedd

**Sylwadau penodol** Gall y gronfa gefnogi gwaith i ddatblygu cysylltiadau, cydweithio a rhwydweithiau rhyngwladol drwy'r dulliau canlynol:

- Gweithgarwch wyneb yn wyneb sydd i'w gynnal y tu allan i Gymru a'r Deyrnas Unedig
- Gweithgarwch hybrid sy'n cyfuno gweithgarwch wyneb yn wyneb y tu allan i Gymru a'r Deyrnas Unedig a datblygiad digidol

**Platfformau ac adnoddau digidol**

- Ystyrir tâl teg i holl gyfranogwyr y prosiect, y rhesymeg dros gael prosiect digidol, wyneb yn wyneb neu hybrid, ac effaith amgylcheddol eich gweithgarwch a'ch taith.
- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth mewn fersiynau print mawr, braille, sain, hawdd i'w ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn ni hefyd yn ceisio rhoi gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg pan wneir cais am hynny.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://arts.wales/cy/ariannu/gwneud-cais/rhyngwladol/cyfleoedd-rhyngwladol-unigolion**

## Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Québec

### * Rhaglen Gydweithrediad rhwng Québec a Chymru

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg

**Y math o symudedd**

- Prosiectau cydweithio a chyfnewid yn y celfyddydau

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yng Nghymru, roedd yr alwad ar agor i ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yn barhaol yn y wlad.
- Yn Québec, rhaid i bennaeth y prosiect fod â dinasyddiaeth Canada neu fod yn preswylio yno'n barhaol.
- Rhaid i brosiectau gynnwys un partner o Gymru ac un o Québec.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Québec
⇐ Cymru

**Blaenoriaethau eraill**

Yn dilyn Datganiad o Fwriad ynghylch cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Québec, a lofnodwyd ar 25 Chwefror 2020, datblygodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Québec alwad ar y cyd yn wreiddiol am gynigion ym meysydd ymchwil, arloesi a chynaliadwyedd, ac ers 2022 mae hynny hefyd yn cynnwys sectorau'r celfyddydau creadigol a threftadaeth. Mae tair galwad am gynigion wedi'u cyhoeddi hyd yma.

Mae'r alwad ar y cyd am gynigion yn ceisio meithrin cysylltiadau rhwng Cymru a Québec, a hynny ymhlith pethau eraill drwy gefnogi gwaith ein sectorau creadigol i arddangos ein treftadaethau diwylliannol unigryw ein gilydd.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Per diems
- Ffioedd artistiaid
- Costau eraill perthnasol y prosiect (gweler y canllawiau)
- Ni all y cymorth ariannol a roddir i bob prosiect bob blwyddyn gan Lywodraeth Québec fod yn fwy na $8,000 CAD nac yn fwy na
- £4,800 GBP gan Lywodraeth Cymru.

**Sylwadau penodol**

- Gellir cynnwys ffioedd i niwtraleiddio nwyon tŷ gwydr yn y gyllideb.
- Mae'r adferiad gwyrdd yn un o'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth (hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac adferiad gwyrdd ym mhob cymdeithas ac annog gwaddol drwy weithredu sy'n deillio o COP26 yn Glasgow, yr Alban, yn 2021).

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.llyw.cymru/quebec-cymru-cynllun-cydweithredu-2023-html**

# Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig

## ArtHouse Jersey

### * 'ArtHouse Jersey Development Grants'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cymorth ariannol i artistiaid cymwys sydd eisiau dilyn neu ddatblygu eu gyrfa mewn unrhyw ddisgyblaeth artistig
- Grantiau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiect newydd
- Grantiau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau artistig

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau perfformio
- Y celfyddydau llenyddol
- Cerddoriaeth
- Y celfyddydau gweledol
- Ffilm
- Artistiaid technegol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid sydd wedi'u lleoli yn Jersey neu artistiaid sydd â chysylltiad â Jersey
- Nid oes angen i'r artistiaid fod yn byw yn Jersey drwy'r amser, ac nid oes angen iddyn nhw fod wedi cael eu geni yn Jersey, ond mae angen iddyn allu dangos bod ganddyn nhw gysylltiadau amlwg â Jersey.

**Cyrchfan(nau)**
⇒ (Jersey → Byd-eang)

**Y costau sy'n berthnasol**
- Gellir cynnwys costau teithio a chynhaliaeth fel rhan o brosiect (nid yn unig yn unol â chyllideb y cais)
- Rhoddir grantiau hyd at £5,000 gan amlaf

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.arthousejersey.je/funding/grants**

# Bermuda Arts Council

## * Grantiau Bermuda Arts Council

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau i unigolion a sefydliadau ar gyfer prosiectau, ac ysgoloriaethau i fyfyrwyr, a allai gynnwys teithiau symudedd perthnasol.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Dinasyddiaeth Bermuda (yn achos grantiau i sefydliadau ac ysgoloriaethau)
- Ffefrir ymgeiswyr o Bermuda (grantiau i unigolion)
- Dylai unigolion a sefydliadau sy'n ymgeisio ddangos eu gallu a'u rhinweddau artistig yn eu ffurf gelfyddydol berthnasol.

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Byd-eang(gyda chyfiawnhad yng nghais y prosiect)

**Blaenoriaethau eraill** Dylai prosiectau ddangos eu gwerth i'r gymuned yn Bermuda.

Mae gan y polisi cenedlaethol ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol yn Bermuda 6 o amcanion – un o'r rhain yw 'sefydlu cysylltiadau diwylliannol', gan gynnwys:

- Datblygu cysylltiadau diwylliannol agosach â chenhedloedd yn y Caribî sydd â phrofiadau a heriau hanesyddol, diwylliannol, economaidd a chymdeithasol tebyg.
- Datblygu cysylltiadau agosach á "diwylliannau gwraidd" – Affricanaidd, Prydeinig, Azoreaidd/ Portiwgeaidd, Americanaidd Brodorol, Americanaidd
- Meithrin cysylltiadau agosach â sefydliadau diwylliannol a threftadaeth rhyngwladol.

**Y costau sy'n berthnasol**

Dylai grantiau prosiectau ddangos y costau arfaethedig sy'n ymwneud â symudedd.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://culture.bm/contributions-awards/bermuda-arts-council/**

## Bòrd na Gàidhlig a Foras na Gaeilge

### * 'Colmcille Small Grants Scheme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Gaelic, Gwyddeleg

**Y math o symudedd**

- Prosiectau cyfnewid sy'n canolbwyntio ar gydweithio rhwng cymunedau ieithyddol Gaeleg a Gwyddeleg.
- ‣ Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys:
  - Hyrwyddo'r defnydd o Aeleg neu Wyddeleg drwy'r celfyddydau
  - Defnyddio treftadaeth i ddod â chymunedau Gaeleg/ Gwyddeleg ynghyd ac i hyrwyddo statws yr ieithoedd

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth gelfyddydol
- Ffurfiau traddodiadol ar gelfyddyd a threftadaeth sy'n gysylltiedig â chymunedau Gaeleg a Gwyddeleg yn yr Alban ac Iwerddon

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Mae ceisiadau gan brosiectau yn agored i sefydliadau sefydledig yn yr Alban ac Iwerddon. Gellir gwneud ceisiadau drwy'r sefydliad cenedlaethol perthnasol.
- Rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio yn yr Alban gael cyfrif banc cyfredol yn y Deyrnas Unedig.
- Nid oes modd i unigolion wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau (mae cynllun cyllido Gwyddelig ar wahân ar agor i unigolion yn yr Alban)

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban

⇒ Iwerddon

**Blaenoriaethau eraill**

- Mae Colmcille yn bartneriaeth rhwng Foras na Gaeilge yn Iwerddon a Bòrd na Gàidhlig yn yr Alban. Mae'n meithrin cyfathrebu a chydweithio rhwng cymunedau ieithyddol Gaeleg a Gwyddeleg.
- Nod y gronfa yw cefnogi prosiectau cymunedol ac unigolion yn yr Alban ac Iwerddon sy'n helpu i gyfoethogi, defnyddio a chryfhau'r ieithoedd drwy weithio mewn partneriaeth.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Hyd at 80% o gyfanswm costau'r prosiect, gydag uchafswm o
- £12,500 (y canllawiau i ymgeiswyr yn yr Alban)
- Gellir gofyn am gyllid hefyd ar gyfer cyfarfodydd cynllunio a theithio angenrheidiol
- Dylai costau teithio, llety a chynhaliaeth sy'n angenrheidiol i greu cynllun ar gyfer partneriaeth ddangos gwerth am arian a dylid cytuno arnyn nhw ymlaen llaw gyda Foras na Gaeilge (yn achos ceisiadau yn Iwerddon).

**Sylwadau penodol**

Gwybodaeth i ymgeiswyr am leihau allyriadau carbon prosiectau

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.gaidhlig.scot/en/funding/funding-schemes/colmcille/**

**https://www.forasnagaeilge.ie/funding-schemes/colmcille-small-grants-scheme-2023/?lang=en**

## Isle of Man Arts Council

### * Grantiau teithio

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd** Grantiau teithio (i gymryd rhan mewn digwyddiad fel gŵyl neu gystadleuaeth gelfyddydol oddi ar yr Ynys)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Pob ffurf gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Preswylwyr Ynys Manaw

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.iomarts.com/funding**

# B.

# Sefydliadau, sefydliadau celfyddydol ac ymddiriedol-aethau elusennol eraill

## The Alpine Fellowship Foundation

### * The Alpine Fellowship Prize (Writing, Poetry, Theatre, Visual Art)

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Presenoldeb mewn symposiwm (Symposiwm flynyddol yr Alpine Fellowship, Sweden)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol
- Theatr
- Ysgrifennu
- Barddoniaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Pobl o bob cenedl (nodyn: sefydliad sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig)

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Sweden

**Blaenoriaethau eraill**
- Cyhoeddir thema flynyddol (2023: Ffynnu)

**Y costau sy'n berthnasol**
- Treuliau teithiau (grant sefydlog)
- Grant ariannol

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://alpinefellowship.com/**

## a-n The Artists Information Company

### * Ysgoloriaethau i Artistiaid a-n

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Costau teithio ar gyfer cyfnodau preswyl
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau neu grantiau teithio (e.e. i gynadleddau, digwyddiadau eilflwydd, arddangosfeydd, sefydliadau, dinasoedd sy'n berthnasol i ymarfer artistig)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artisiaid sy'n aelodau ac yn gyd-aelodau (artist a threfnydd celf) presennol a-n (mae'r aelodaeth yn wasanaeth tanysgrifio fforddiadwy i a-n sy'n rhoi gwybodaeth ac adnoddau cymorth i artistiaid)

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**
- Ysgoloriaethau gwerth £500 i £1,500 ar gyfer ymarfer proffesiynol parhaus a datblygu creadigol
- Ymweld â chynadleddau, digwyddiadau eilflwydd, arddangosfeydd, dinasoedd neu unrhyw leoliad neu ddigwyddiad penodol arall sy'n berthnasol i'ch ymarfer, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, a'r costau teithio, llety a chynhaliaeth cysylltiedig

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Cynhaliaeth
- Ffioedd cysylltiedig / ffioedd cyfranogi

**Sylwadau penodol**
Mae costau hygyrchedd ychwanegol ar gael ar gyfer anabledd (hyd at £500) os bydd angen hynny.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.a-n.co.uk/about/a-n-artists-bursaries-2022-23/**

## Art Fund

### * 'Jonathan Ruffer Curatorial Grant'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Grantiau teithio ar gyfer gwaith ymchwil
- Cyrsiau hyfforddiant a rhaglenni astudio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol
- Astudiaethau amgueddfaol a churadurol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Curaduron, gweithwyr amgueddfa proffesiynol, ac ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig
- Dylai ymgeiswyr fod yn cael eu cyflogi gan amgueddfeydd ac orielau yn y Deyrnas Unedig sydd ag achrediad dros dro, fan lleiaf, neu sefydliadau celfyddydol yn y Deyrnas Unedig sydd â statws elusennol ac sy'n rhaglennu arddangosfeydd yn rheolaidd, neu'n gweithio mewn partneriaeth â'r rhain

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**
Ar gyfer teithio a gweithgareddau eraill a fydd yn ehangu ac yn datblygu arbenigedd guradurol yr ymgeisydd, ei wybodaeth am gasgliadau, a'i ddiddordebau hanesyddol.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Cyrsiau hyfforddiant a rhaglenni astudio
- Mae dau gategori o grantiau ar gael: £200-£2,000 a £2,001+

**Sylwadau penodol**
Caiff y grantiau eu talu i'r sefydliad cefnogi ac nid i'r unigolion.

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://www.artfund.org/supporting-museums/programmes/jonathan-ruffer-curatorial-grants**

## Bagri Foundation

### * Grantiau

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd** Cefnogaeth i brosiectau artistig, yn bennaf yn Llundain, a all gynnwys cymorth teithio i artistiaid sydd wedi'u gwahodd o Asia, ac yn benodol ar gyfer:
- Arddangosfeydd neu sioeau ôl-syllol gan artistiaid
- Arddangosfeydd ar raddfa fawr
- Gweithiau comisiwn cyhoeddus newydd
- Prosiectau digidol
- Gwyliau a digwyddiadau eilflwydd o bwys
- Gwobrau a dyfarniadau
- Prosiectau hirdymor a thrawsddiwylliannol sydd â chanlyniadau cyhoeddus.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- celfyddydau gweledol
- Cynhyrchu digidol
- Cerddoriaeth
- Y gair ysgrifenedig
- Treftadaeth
- Crefftau

**Y buddiolwyr sy'n gymwys** Sefydliadau celfyddydol nid-er-elw

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Y Deyrnas Unedig (Llundain yn bennaf)

**Blaenoriaethau eraill**
- Hyrwyddo celfyddyd a diwylliant Asia gyfan a'r gymuned ddiaspora
- Cefnogi artistiaid sydd wedi ennill eu plwyf ac artistiaid sydd ar ganol eu gyrfaoedd
- Partneriaethau sy'n archwilio pynciau byd-eang mewn ffyrdd creadigol
- Cyrsiau, darlithoedd, prosiectau ymchwil, arddangosfeydd a symposia sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau o Asia
- Llundain yw prif ddinas y Bagri Foundation ar gyfer arddangos talent. Ystyrir prosiectau rhyngwladol a rhai mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o bryd i'w gilydd.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Grantiau ar gyfer prosiectau, a allai gynnwys cymorth i deithio
- Mae'r grantiau'n amrywio rhwng £5,000 a £150,000 ac yn cael eu rhoi mewn dwy rownd bob blwyddyn.

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://bagrifoundation.org/funding-opportunities/**

## Daiwa Anglo-Japanese Foundation

* 'Daiwa Foundation Small Grants'
* 'Daiwa Foundation Awards'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Japaneeg

**Y math o symudedd**

'Daiwa Foundation Small Grants':

- Cyfnewidfeydd
- Teithiau ymchwil
- Cynadleddau, arddangosfeydd, prosiectau i hyrwyddo a chefnogi rhyngweithio rhwng y Deyrnas Unedig a Japan

'Daiwa Foundation Awards':

- Prosiectau ar y cyd, gan gynnwys ym meysydd y celfyddydau a diwylliant, sy'n galluogi partneriaid ym Mhrydain a Japan i gydweithio, yn ddelfrydol yng nghyd-destun perthynas sefydliadol.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Unigolion, cymdeithasau, neu gyrff eraill yn y Deyrnas Unedig neu Japan sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi ymwneud rhwng y ddwy wlad â'i gilydd ('Daiwa Foundation Small Grants')
- Sefydliadau yn y Deyrnas Unedig a Japan sy'n datblygu prosiectau partneriaeth yng nghyd-destun perthynas sefydliadol ('Daiwa Foundation Awards')

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig
⇒ Japan

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Cynhaliaeth
- Costau prosiectau
- 'Daiwa Foundation Small Grants': £2,000-£9,000 (gan amlaf £3,000-£4,000)
- 'Daiwa Foundation Awards': £9,000-£18,000 (gan amlaf £9,000)

**Sylwadau penodol** Nid yw'r grantiau'n cael eu rhoi ar gyfer cyflogau neu ffioedd proffesiynol, nac ar gyfer costau comisiynu gwaith celf (mae'r canllawiau'n rhoi rhagor o fanylion).

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://dajf.org.uk/daiwa-foundation-small-grants-and-awards**

## Fidelio Charitable Trust

### * Grantiau Fidelio Charitable Trust

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Mynychu dosbarthiadau meistr
- Cymryd rhan mewn cystadlaethau dramor
- Cefnogaeth ar gyfer perfformiad neu gyfansoddiad arbennig

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Cerddoriaeth (gan gynnwys Opera, Lieder, Cyfansoddi a Dawns)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig
- Dim cyfyngiadau ar genedligrwydd
- Unigolion neu grwpiau o allu eithriadol
- Dros 21 mlynedd
- Blaenoriaeth i artistiaid cerddorol ar ddechrau'u gyrfaoedd

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill** Rhaid i geisiadau ar gyfer unigolion a grwpiau cael eu cymeradwyo a'u cyflwyno gan y sefydliad sy'n gwneud yr argymhelliad

**Y costau sy'n berthnasol**
- Y costau perthnasol i'w cyflwyno gyda'r cais
- Nid yw'r grantiau gan amlaf yn fwy na £5,000

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://www.fideliocharitabletrust.org.uk/index.php**

## The Finzi Trust

### * 'Finzi Trust Young Musicians Fund'
### * 'Finzi Trust Unrestricted Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys cyrsiau byr dramor i gerddorion (nid yw'r grantiau ar gael ar gyfer astudiaethau israddedig nac ôl-raddedig)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- 'Finzi Trust Young Musicians Fund': ymgeiswyr o dan 25 oed
- 'Finzi Trust Unrestricted Fund': dim cyfyngiadau oedran
- Dim manylion am gymhwysedd o ran cenedligrwydd/ dinasyddiaeth

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill** Rhaid i'r ymgeiswyr cymwys ddangos ymroddiad, gallu a gwir angen ariannol.

**Y costau sy'n berthnasol** Costau prosiectau, gan gynnwys teithio a chostau a threuliau cyrsiau byr

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**http://www.geraldfinzi.org/**

## The Great Britain Sasakawa Foundation

### * Grantiau

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Japaneeg

**Y math o symudedd**

- Ymweliadau rhwng y Deyrnas Unedig a Japan, gan gynnwys gan artistiaid creadigol a chynrychiolwyr sefydliadau sifig ac anllywodraethol
- Prosiectau cyfnewid diwylliannol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Sefydliad

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob disgyblaeth gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Sefydliadau wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig neu Japan
- Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan amlaf gan sefydliadau a gallan nhw gefnogi gwaith unigolion sy'n hyrwyddo amcanion y Sefydliad.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Japan
⇐ Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

Nod y Sefydliad yw datblygu perthnasau da rhwng y Deyrnas Unedig a Japan drwy hybu addysg pobl yn y ddwy genedl ynghylch diwylliant, cymdeithas a llwyddiannau'r naill a'r llall. Mae'n ceisio hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin a chydweithio drwy roi cymorth ariannol tuag at weithgarwch.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Cynhaliaeth
- Ceir grantiau teithio safonol rhwng y Deyrnas Unedig a Japan gwerth £2,000, a hyd at £2,500 ar gyfer ymweliadau sy'n para pythefnos neu ragor.
- Ni fydd y dyfarniadau gan amlaf yn fwy na £5,000-£6,000 ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**http://www.gbsf.org.uk/grants/overview/**

## Help Musicians

### * 'Develop your music'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cymorth ar gyfer teithio a pherfformiadau byw
- Cymorth ar gyfer datblygu sgiliau a datblygu proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Cerddoriaeth (cerddorion proffesiynol a churaduron cerddorol ym mhob genre a disgyblaeth)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Cerddorion sydd â'r hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig
- Yn byw yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd
- Gyda chyfrif banc yn y Deyrnas Unedig
- Oedran 18+

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Rhaid i'r ymgeiswyr fod ag angen ariannol, heb gefnogaeth sylweddol ar gyfer teithio neu berfformiadau byw gan label recordio, cyhoeddwr neu fuddsoddwr preifat.
- Ni ddylai ymgeiswyr fod â mwy na £16,000 o gynilon.
- Rhaid i'r ymgeiswyr eisoes fod â gyrfa brysur gan allu dangos yn glir eu gwaith hyd yma.
- Rhaid i grwpiau sy'n gwneud cais fod wedi'u sefydlu ac yn chwarae gyda'i gilydd yn rheolaidd ers o leiaf flwyddyn.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Costau perfformiadau byw a chostau teithio (teithio, llogi lleoliadau, llety)
- Ffioedd cerddorion sesiwn a chriw
- Costau cysylltiedig eraill (e.e. cysylltiadau cyhoeddus, marchnata, creu cynnwys, nwyddau)
- Fisâu a thrwyddedau
- Yswiriant teithio a chynnwys
- Cynigir grantiau cymorth o hyd at £5,000

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.helpmusicians.org.uk/get-support/develop-as-a-musician/develop-your-music**

## Japan Foundation, London

### * 'Exhibitions Abroad Support Programme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Japaneeg

**Y math o symudedd**

- Cymorth ariannol i amgueddfeydd, orielau a sefydliadau perthnasol eraill sy'n cynnal arddangosfeydd neu'n cyflwyno celfyddyd a diwylliant Japan i'r Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i dylunio i gefnogi arddangosfeydd rhyngwladol dramor fel digwyddiadau bob dwy / tair blynedd sy'n cyflwyno artistiaid o Japan a'u gwaith.
- Costau teithio i artistiaid, curaduron ac arbenigwyr sydd wedi'u gwahodd o Japan (heb gynnwys costau gwaith ymchwil a datblygu cychwynnol) yn gysylltiedig â phrosiect yr arddangosfa a gefnogir.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol
- Amgueddfeydd
- Crefftau
- Dylunio
- Ffotograffiaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Amgueddfeydd a sefydliadau celfyddydol yn y Deyrnas Unedig

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio rhyngwladol
- Teithio (teithio domestig yn y Deyrnas Unedig)
- Llety
- Nid yw'r rhaglen yn talu ffioedd artistiaid

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.jpf.org.uk/artsandculture/funding.php**

### * Rhaglen grantiau ar gyfer prosiectau sgrinio ffilmiau o Japan yn y Deyrnas Unedig

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Japaneeg

**Y math o symudedd**

- Cymorth ariannol i wyliau ffilm yn y Deyrnas Unedig neu sefydliadau nid-er-elw sy'n dymuno sgrinio nifer sylweddol o ffilmiau o Japan at ddibenion nid-er-elw.
- Treuliau teithio i gyfarwyddwr neu feirniaid o Japan mewn cysylltiad â'r prosiect ffilm a gefnogir.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ffilm

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Gwyliau ffilm neu raglenni nid-er-elw yn y Deyrnas Unedig sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau yn y Deyrnas Unedig.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Y costau sy'n berthnasol**

- Costau teithio
- Gellir rhoi hyd at £1,500 i geisiadau llwyddiannus

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.jpf.org.uk/artsandculture/funding.php**

### * 'Local Project Support Programme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Japanese

**Y math o symudedd**

- Cymorth grant cyfyngedig i brosiectau/digwyddiadau nid-er-elw sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant sy'n helpu i hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o Japan yn y Deyrnas Unedig (e.e. arddangosfeydd, y celfyddydau perfformio, seminarau, gweithdai a chynadleddau), a'r rheini o fudd i'r cyhoedd yn ehangach. Rhaid i gynnwys y prosiect/digwyddiad ymwneud yn gyfan gwbl, neu i raddau helaeth, â Japan.
- Gellid cynnwys costau teithio y bernir eu bod yn hanfodol i gyflawni'r prosiect yng nghyllideb y prosiect.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Pob ffurf gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys** Sefydliadau yn y Deyrnas Unedig

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Y Deyrnas Unedig

**Y costau sy'n berthnasol**

- Costau teithio (fel rhan o gostau'r prosiect)
- Gellir rhoi hyd at £1,500 i geisiadau llwyddiannus

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.jpf.org.uk/artsandculture/funding.php**

## Oppenheim-John Downes Memorial Trust

### * Dyfarniadau

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd** Teithio a gwaith ymchwil

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau gan artistiaid, dylunwyr, awduron a pherfformwyr proffesiynol, ynghyd â rhai sy'n dymuno dechrau ar eu gyrfaoedd, a'r rheini'n gweithio yn unrhyw un o'r disgyblaethau canlynol:

- Y celfyddydau gweledol (gan gynnwys paentio, gwneud printiau, ffotograffiaeth, cerflunwaith a gwaith mewn cyfryngau eraill)
- Crefftau (gan gynnwys serameg, gwydr, gwaith metel, cerfio pren, tecstiliau a gwaith mewn cyfryngau eraill)
- Cerddoriaeth (cerddorion, cyfansoddwyr ac arweinwyr)
- Dylunio (gan gynnwys ffasiwn, dylunio cynhyrchion/arloesi a gwaith mewn cyfryngau digidol)
- Y celfyddydau perfformio (actorion, dawnswyr ac artistiaid perfformio unigol o unrhyw fath arall)
- Ysgrifennu creadigol (beirdd, nofelwyr, libretyddwyr ac awduron creadigol o unrhyw fath arall)
- Ffilm a chyfryngau digidol
- Ystyrir ceisiadau hefyd gan arbenigwyr celf a chrefft sy'n ymwneud ag adfer a gwarchod arteffactau pensaernïol a diwylliannol, fel eurwyr, naddwyr cerrig a chadwraethwyr.

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Deiliaid Prydain sydd wedi'u geni ym Mhrydain Fawr, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw
- Dros 30 oed pan wneir y cais

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Mae'r Gronfa'n rhoi grantiau ar raddfa fechan i artistiaid, dylunwyr, awduron a pherfformwyr dros 30 oed sy'n wynebu anawsterau ariannol wrth ddilyn eu gyrfaoedd.
- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydyn nhw eisoes wedi cael grantiau gan y Gronfa.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Costau eraill ymchwilio i brosiectau
  Y grantiau'n amrywio o £250 i £1,000

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**http://www.oppenheimdownestrust.org/**

## Sefydliad PRS

### * Y Gronfa Arddangos Rhyngwladol

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Mynychu digwyddiadau rhyngwladol sy'n arddangos cerddoriaeth (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir)
- Mynychu cynadleddau rhyngwladol i weithwyr proffesiynol y diwydiant cerddoriaeth
- Mynychu gwersylloedd ysgrifennu caneuon (gyda'r nod o annog cydweithio rhyngwladol a datblygu gyrfaoedd)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig
- Pobl sy'n creu cerddoriaeth (artistiaid, bandiau, cyfansoddwyr caneuon a chynhyrchwyr)

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Byd-eang

Nodyn: y digwyddiadau arddangos rhyngwladol sy'n gymwys yw'r rheini sydd â chynulleidfaoedd neu gynrychiolwyr o'r diwydiant cerddoriaeth rhyngwladol yn bennaf.

**Blaenoriaethau eraill** Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar botensial i allforio'r gerddoriaeth sy'n cael ei harddangos

**Y costau sy'n berthnasol**

- Uchafswm o 90% o gostau'r daith
- Teithio dros ffiniau
- Fisâu
- Llety
- Per diems
- Taliadau cydnabyddiaeth: ffioedd bandiau, amser ymarfer, amser pobl sy'n creu cerddoriaeth
- Costau eraill (yswiriant teithio, profion PCR, tocynnau i gynadleddau, costau ffilmio/ffrydio byw, marchnata a hyrwyddo, ffioedd cyflwyno, cyfraniad at gost rheolwr i ddod ar y daith)

**Sylwadau penodol**

- Cefnogir pobl sy'n mynychu arddangosfeydd/gwersylloedd caneuon rhyngwladol yn rhithwir hefyd
- Cefnogir costau artistiaid anabl/gofynion hygyrchedd artistiaid
- Gwneir yr holl benderfyniadau ariannu gan bartneriaid y Gronfa Arddangos Rhyngwladol: Sefydliad PRS, yr Adran Masnach Ryngwladol, British Underground, Arts Council England, Musicians' Union, PPL, Creative Scotland, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council of Northern Ireland ac Invest NI.

**Gwelwyd ddiwethaf** 06/03/2023

**https://prsfoundation.com/funding-support/funding-music-creators/international/international-showcase-fund/**

### * 'Beyond Borders'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Rhaglen ar gyfer cyd-gomisiynu a theithio sy'n cefnogi cydweithio dros ffiniau rhwng sefydliadau cerddoriaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Sefydliadau cerddoriaeth a bandiau/ensembles sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon
- Sefydliadau nid-er-elw
- Rhaid i geisiadau gynnwys o leiaf dri phartner, pob un o wahanol ran o'r Deyrnas Unedig/Iwerddon

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Iwerddon

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

Rhaid i brosiectau cydweithio cerddorol cymwys gael eu perfformio mewn o leiaf 3 o'r gwledydd (Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon)

**Y costau sy'n berthnasol**

Costau perfformio a theithio, gan gynnwys y costau teithio'u hunain

**Sylwadau penodol**

Mae prosiectau presennol 'Beyond Borders' yn cael eu cefnogi mewn partneriaeth â Creative Scotland, Cyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council of Northern Ireland ac An Chomhairle Ealaíon.

**Gwelwyd ddiwethaf** 06/03/2023

**https://prsfoundation.com/funding-support/funding-for-organisations/beyond-borders/**

## Rivington Fund

### * Cyllid Rivington

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Mae'r Rivington Fund yn rhoi cyllid i drigolion Jersey na allai fel arall fforddio teithio oddi ar yr ynys i feithrin eu brwdfrydedd mewn celfyddydau, crefftau neu hanes.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Celfyddydau
- Crefftau

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Preswylwyr Jersey
- Diddordeb mewn celfyddydau, crefftau neu hanes
- Heb fod wedi teithio oddi ar ynys Jersey am ddwy flynedd pan wneir y cais
- Mae angen cymorth ariannol i alluogi'r daith i ddigwydd

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang (o Jersey)

**Blaenoriaethau eraill**

Teithiau i'r Deyrnas Unedig yw'r rhan fwyaf o'r rhai y bydd Rivington yn eu cefnogi, a llond llaw i Ewrop ac un neu ddau i lefydd rhyngwladol.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Costau byw
- Yswiriant

**Sylwadau penodol**

Gall unigolion a grwpiau wneud cais, ac mae modd cynnwys gofalwyr i hebrwng pobl sydd ag anableddau ac anghenion arbennig.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.rivington.je/**

## Rothschild Foundation Hanadiv Europe

### * Treftadaeth Iddewig Ewropeaidd: Datblygu Proffesiynol – Ymweliadau â Safleoedd

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Teithiau i wneud gwaith ymchwil
- Ymweliadau â safleoedd: cyfleoedd i aelodau staff archifau, amgueddfeydd neu lyfrgelloedd o sefydliadau'r Deyrnas Unedig i gwrdd â chymheiriaid mewn sefydliadau Ewropeaidd eraill.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Gweithwyr proffesiynol mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth Iddewig (archifwyr, llyfrgellwyr, cadwraethwyr, curaduron, addysgwyr, catalogwyr ac ati) sy'n gweithio'n broffesiynol mewn amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd neu sefydliadau treftadaeth eraill yn y Deyrnas Unedig sydd â chasgliadau Iddewig sylweddol.
- I sefydliadau sy'n gwneud cais, rhaid i'w gweithgareddau fod yn rhai elusennol o dan gyfraith elusennau y Deyrnas Unedig.

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Europe

**Blaenoriaethau eraill**
- Mae cyllid ar gael ar gyfer cyfleoedd datblygu proffesiynol a hyfforddiant sydd o fudd i'r cyfranogwyr yn eu gwaith proffesiynol ac sy'n cryfhau'r sefydliadau sydd â chasgliadau Iddewig.
- Gall yr ymgeiswyr gynnwys archifwyr, llyfrgellwyr, cadwraethwyr, curaduron, addysgwyr, catalogwyr ac ati sy'n gweithio'n broffesiynol mewn amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd neu sefydliadau treftadaeth eraill sydd â chasgliadau Iddewig sylweddol.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Uchafswm y grant: £1,000

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://rothschildfoundation.eu/what-we-fund/european-jewish-heritage/professional-development/**

## Scottish Books International mewn partneriaeth â Creative Scotland

### * 'Author International Travel Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Grantiau i gymryd rhan mewn digwyddiadau (rhwydweithiau, gwyliau, ffeiriau masnach, cynadleddau, cyfarfodydd ac ati)
- Grantiau teithio (at wahanol ddibenion)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Llenyddiaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Yn byw ac yn gweithio yn yr Alban neu'n dod o'r Alban ond wedi'u lleoli yn rhywle arall
- Awduron proffesiynol sy'n ymarfer ac wedi'u gwahodd i ddigwyddiad rhyngwladol

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**
- Rhoddir blaenoriaeth i ddigwyddiadau hyrwyddo sy'n targedu'r cyhoedd.
- Ni flaenoriaethir digwyddiadau academaidd oni bai bod tystiolaeth glir o hyrwyddo gwaith llenyddol i gynulleidfa/darllenwyr cyffredinol.
- Mae angen llythyr gwahodd gan y sefydliad lletya yn dangos cefnogaeth.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio dros ffiniau
- Fisâu (pan fydd hynny'n berthnasol)
- Telir costau gwerth hyd at £1,000

**Sylwadau penodol** Gellir gwneud cais am arian ychwanegol ar gyfer costau gofal plant sy'n uwch na'r cyfyngiad o £1,000, gan ddangos beth yw'r rhain yn ychwanegol at y costau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r teithio.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://scottishbooksinternational.org/doanything/**

## Society for Caribbean Studies (Y Deyrnas Unedig)

### * 'Bridget Jones Travel Award'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg

**Y math o symudedd**

- Dyfarniad i deithio, gan gynnwys mynychu Cynhadledd Flynyddol y Society for Caribbean Studies yn y Deyrnas Unedig

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol (artistiaid gweledol, perfformwyr, awduron creadigol, gwneuthurwyr ffilmiau, astudwyr llên gwerin, dramodwyr ac ati)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Ymchwilwyr neu ymarferwyr celfyddydol sy'n byw ac yn gweithio yn y Caribî
- Croesewir ceisiadau'n benodol gan unigolion sydd heb gysylltiadau sefydliadol.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Y costau sy'n berthnasol**

Dyfarniad o £650 tuag at gostau teithio ac ysgoloriaeth lawn i fynychu cynhadledd y Society for Caribbean Studies (ffioedd y gynhadledd a llety).

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**http://community-languages.org.uk/scs/bursaries-and-prizes/bridget-jones-award/apply-bridget-jones/**

## Society of Authors

### * 'Drusilla Harvey Access Fund'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cymorth ariannol i awduron ar gyfer teithio, cynhaliaeth, gofal plant neu anghenion hygyrchedd mewn digwyddiadau, cyfnodau preswyl ac encilion

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ysgrifennu

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Preswylwyr y Deyrnas Unedig a dinasyddion Prydain
- Unrhyw un sy'n creu gwaith i'w gyhoeddi, ei ddarlledu neu'i berfformio. Nid oes angen i chi fod yn aelod o'r Society of Authors i wneud cais, ond dylech chi fodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn aelod.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Cynhaliaeth
- Gofal plant a chymorth gofalwyr
- Anghenion hygyrchedd
- Mae grantiau gan amlaf yn llai na £100, a ddim yn fwy na £350

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www2.societyofauthors.org/grants/drusilla-harvey-access-fund/**

# C.

# Cyfnodau preswyl

## Aargauer Kuratorium

### * Cyfnodau preswyl i artistiaid yn ACME, Llundain

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Almaeneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol a pherfformio
- Ffilm
- Jazz a phop roc
- Cerddoriaeth glasurol
- Llenyddiaeth
- Theatr
- Dawns

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid ac ymarferwyr sy'n gysylltiedig â Chanton Aargau, y Swistir (mae'r canllawiau'n rhoi'r gofynion o ran dinasyddiaeth/preswylio)

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Llundain

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Cymorth stiwdio
- Costau byw a chostau eraill

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.aargauerkuratorium.ch/**

## The Art House and The Royal Over-Seas League

### * Cyfnod Preswyl Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol (artistiaid sy'n ymwneud â phob math o ymarfer yn maes y celfyddydau gweledol cyfoes, gan gynnwys ffotograffiaeth, y cyfryngau newydd, celfyddyd gain, delweddau symudol artistiaid, cerflunwaith, celfyddyd fyw, crefftau, dylunio, pensaernïaeth, safleoedd penodol, ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithas, ac ymarfer rhyngddisgyblaethol)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid sy'n byw ac yn gweithio yng ngwledydd y Gymanwlad (neu un o gyn-wledydd y Gymanwlad), yr Unol Daleithiau, gwledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, ac sydd heb eto arddangos neu weithio yn y Deyrnas Unedig.

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Y Deyrnas Unedig (Wakefield, Lloegr)

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Fisâu
- Llety a gofod stiwdio
- Per diem
- Deunyddiau a chyllideb deithio yn y Deyrnas Unedig
- Costau arddangos a mathau eraill o gymorth

**Sylwadau penodol**
Mae fersiynau print mawr, PDF a sain o'r canllawiau ar gael

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://the-arthouse.org.uk/news/international-residency-open-call-2023/**

## Arts Council England, Creative Scotland, Goethe-Institut, NRW KULTURsekretariat, a Nordisk Kulturfond

### * Cyfnod preswyl rhyngwladol CROWD ym maes dawns

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl
- Cyfnewid rhyngwladol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Dawns

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid dawns unigol
- Wedi'u lleoli yn Lloegr, yr Alban, Iwerddon, Denmarc, y Ffindir, Gwlad yr Iâ, yr Iseldiroedd a'r Almaen (Gogledd Rhine-Westphalia yn unig)

**Cyrchfan(nau) :**
⇐ Yr Almaen, Ffindir, Iwerddon, yr Iseldiroedd, Denmarc, Gwlad yr Iâ (symudedd allanol)
⇒ Lloegr, yr Alban (symudedd mewnol)

**Blaenoriaethau eraill**
Rhaid i ymgeiswyr allu dangos profiad o ymwneud â chymunedau yn eu hymarfer dawns

**Y costau sy'n berthnasol**
- €3,200/£2,800 i bob artist, gyda chyfanswm o 4 wythnos o gyfnodau preswyl
- Teithio
- Llety
- Per diems (€50/£45 am bob noson i ffwrdd)
- Ysgoloriaethau i'r rheini sydd ag anghenion hygyrchedd ychwanegol neu gyfrifoldebau gofalu

**Sylwadau penodol**
Gan weithio mewn parau, bydd artistiaid dawns yn dod ynghyd ddwywaith yn ystod cyfnod preswyl 2 wythnos: unwaith yn eu gwlad gartref ac unwaith dramor.

**Gwelwyd ddiwethaf** 31/03/2021

**https://crowd.dance/**

## Australia Council for the Arts

### * Cyfnod preswyl Acme, Llundain

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol (gan gynnwys artistiaid, curaduron ac awduron celf)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid sy'n ymarfer
- Dinasyddion Awstralia neu breswylwyr parhaol yn Awstralia
- Mae angen prawf o yswiriant teithio (y buddiolwr i dalu am hwn)

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Llundain

**Y costau sy'n berthnasol**
- Llety
- Stiwdio
- Costau byw (gan gynnwys costau teithio)
- Mathau eraill o gymorth tuag at y cyfnod preswyl

**Sylwadau penodol**
Bydd yr uned yn croesawu parau a gall Acme drefnu gwlâu ychwanegol i westeion eraill. Serch hynny, nid yw unedau gwaith/byw yr Orsaf Dân yn addas i deuluoedd.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://australiacouncil.gov.au/investment-and-development/international-engagement/residencies/acme-london-residency/**

## Yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain

### * 'Abbey Fellowships in Painting' ac 'Abbey Scholarship in Painting'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol (paentio)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid ar ganol eu gyrfaoedd, a phaentwyr yn bennaf, y mae eu gwaith yn dangos rhinweddau ac addewid eithriadol ('Abbey Fellowship')
- Artistiaid ar ddechrau eu gyrfaoedd, a phaentwyr yn bennaf, y mae eu gwaith yn dangos rhinweddau ac addewid eithriadol ('Abbey Scholarship')
- Cenedligrwydd Brydeinig neu Wyddelig
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn ddinasyddion yn y Deyrnas Unedig neu Unol Daleithiau America, neu o genedligrwydd wahanol, cyn belled â'u bod wedi preswylio yn y naill wlad neu'r llall (y Deyrnas Unedig neu Unol Daleithiau America) am o leiaf bum mlynedd yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Yr Eidal (Rhufain)

**Blaenoriaethau eraill**

Mae angen talu ffi ymgeisio bach

**Y costau sy'n berthnasol**

*'Abbey Fellowship':*

- Grant am 3 mis @ £1500 y mis (telir costau teithio)
- Llety a bwyd yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain (BSR)

*'Abbey Scholarship':*

- Costau byw am 9 mis @ £1000 y mis (telir costau teithio)
- Llety a bwyd yn yr Ysgol Brydeinig

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://abbey.org.uk/**

### * 'The Bridget Riley Fellowship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd** Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid sydd â chenedligrwydd Brydeinig, a'r rheini sydd wedi bod yn gweithio'n broffesiynol (ar ôl graddio) neu'n astudio ar lefel ôl-raddedig am o leiaf y tair blynedd ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig
- Artistiaid ar ddechrau neu ganol eu gyrfaoedd, ac y mae i'w gwaith elfen luniadu sylweddol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Yr Eidal (Rhufain)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Llety a bwyd mewn stiwdio breswyl
- Costau byw/grant (telir costau teithio)
- Grant gwerth £500 tuag at ymweliad byr cyn y cyfnod preswyl â'r Ysgol Brydeinig yn Rhufain (BSR) a/neu at dreuliau fisa a/neu i drefnu i gludo gwaith ar ddiwedd y cyfnod preswyl

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://bsr.ac.uk/visual-arts/**

## * Cymrodoriaeth Cymru Greadigol – Yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Cymraeg

**Y math o symudedd** Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol
- Digidol a ffilm
- Perfformio
- Ymarfer ym maes celfyddyd gain

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid ar ddechrau neu ganol eu gyrfaoedd, sy'n byw yng Nghymru

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Yr Eidal (Rhufain)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Llety a bwyd
- Costau teithio
- Grant tuag at ymweliad byr cyn y cyfnod preswyl
- Grant i gludo gwaith yn ôl i Gymru Gwelwyd

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/cymrodoriaeth-cymru-greadigol-ysgol-brydeinig-yn-rhufain**

**https://bsr.ac.uk/visual-arts/**

## * 'The Sainsbury Scholarship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd** Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid eithriadol ar ddechrau'u gyrfaoedd o grwpiau ethnig leiafrifol
- Artistiaid sydd â chenedligrwydd Brydeinig, a'r rheini sydd wedi bod yn gweithio'n broffesiynol (ar ôl graddio) neu'n astudio ar lefel ôl-raddedig am o leiaf y pum mlynedd ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Yr Eidal (Rhufain)

**Blaenoriaethau eraill**

Mae'r cyfle hwn wedi'i gadw i ymgeiswyr o grwpiau ethnig leiafrifol, sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain (BSR).

**Y costau sy'n berthnasol**

- Grantiau teithio
- Llety a bwyd yn BSR
- Costau byw/grant
- Grant gwerth £400 i helpu gyda chostau fisâu a chostau cludo gwaith

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://bsr.ac.uk/visual-arts/**

# Conseil des arts et des lettres du Québec (CALQ)

## * Studio du Québec à Londres / Cyfnod preswyl i Artistiaid yn ACME, Llundain

**Ieithoedd y cynllun** Ffrangeg, Saesneg

**Y math o symudedd** Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol
- Llenyddiaeth
- Celfyddydau syrcas
- Celfyddydau amlddisgyblaethol
- Celfyddydau digidol
- Cerddoriaeth
- Ffilm
- Dawns
- Crefftau
- Gwaith ymchwil pensaernïol
- Theatr

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid o Québec sydd â dros 10 mlynedd o brofiad o ymarfer proffesiynol
- Artistiaid gweledol ac awduron sy'n gweithio yn unrhyw un o'r disgyblaethau dylunio a chelf

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Llundain

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Gofod stiwdio
- Costau byw
- Cymorth gyda'r cyfnod preswyl, rhwydweithio, costau eraill

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.calq.gouv.qc.ca/aides/studio-quebec-londres**

## Cove Park / Varuna | The National Writers' House

### * Rhaglen Gyfnewid Breswyl Cove Park / Varuna

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i awduron

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ysgrifennu

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

Rhaglen gyfnewid ddwyffordd sy'n cynnig cyfnodau preswyl i:

- Awduron sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi cael cyfnod preswyl o'r blaen yng nghanolfan breswyl ryngwladol Cove Park, yr Alban, ar gyfer cyfnod preswyl yn Varuna | The National Writers' House, Awstralia
- Awduron sydd wedi'u lleoli yn Awstralia ac sydd wedi cael cyfnod preswyl o'r blaen yn Varuna | The National Writers' House ar gyfer cyfnod preswyl yng nghanolfan breswyl ryngwladol Cove Park, yr Alban

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Awstralia (Varuna)
⇐ Yr Alban (Cove Park)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Lwfans wythnosol
- Costau eraill

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://covepark.org/**

**https://www.varuna.com.au/fellowships/cove%20park**

## Cove Park – Mophradat

### * Cyfnod Preswyl Art Time (Partneriaeth Mophradat – Cove Park)

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Arabeg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Rhaid i ymgeiswyr fod o'r byd Arabaidd.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithio ar brosiect neu'n ymchwilio i syniadau newydd.
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos eu bod yn weithgar yn y maes celfyddydau gweledol yn lleol a/neu yn rhyngwladol.
- Anogir ymgeiswyr sydd â diddordebau sy'n pontio disgyblaethau i wneud cais.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban (Cove Park)

**Blaenoriaethau eraill**

Dylai fod gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn bod mewn lleoliad gwledig fel rhan o gymuned fechan

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio rhyngwladol a lleol i'r safle
- Fisâu
- Llety
- Lle gweithio
- Per diems

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://mophradat.org/en/program/art-time-residencies/visual-arts/**

## D6: Culture in Transit a phartneriaid cyllido

### * Rhaglenni amrywiol sy'n cynnig cyfnodau preswyl gan bartneriaethau

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg (ac iaith/ieithoedd sy'n berthnasol i gynlluniau penodol)

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl ar gyfer ymchwil artistig

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol
- Ymarfer rhyngddisgyblaethol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

Yn amrywio yn dibynnu ar y rhaglen benodol – enghreifftiau ar hyn o bryd:

- (Re)Grounding (2022-23): 1 mis + ymweliad 1 wythnos cyn y cyfnod preswyl i 2 artist o Wcráin – edrychwyd ar yr argyfwng hinsawdd mewn cyd-destunau ôl-ddiwydiannol drwy gyfnodau preswyl ar gyfer ymchwil a gysylltai ymarfer artistig, treftadaeth a chymunedau yn y Deyrnas Unedig ac Wcráin (Partneriaeth gyda IZOLYATSIA, gyda chefnogaeth y British Council / Tymor y Deyrnas Unedig / Wcráin 2022).
- 'ARTISTS CONNECTING IN TRANSITION (ACT)' (2022-23): rhaglen ryngwladol a drefnwyd gan D6: Culture in Transit (y Deyrnas Unedig), arthereistanbul (Twrci), MedeArts (Jordan) a'r Fanak Fund (sy'n gweithio ledled Ewrop, yn y byd Arabaidd, a'r tu hwnt). Yn canolbwyntio ar ymarfer artistig a chyfnewid rhyngwladol yng nghyd-destun yr heriau byd-eang sylweddol ac anghydraddoldebau ynghylch ymfudo dan orfod, alltudio a dadleoli. Dewiswyd 2 artist o ogledd-ddwyrain Lloegr sydd â phrofiad bywyd o ymfudo dan orfod, alltudio neu ddadleoli.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Newcastle, Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

Mae'r blaenoriaethau thematig yn amrywio ym mhob rhaglen (gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd, ymfudo dan orfod, alltudio, lloches, treftadaeth drefedigaethol gynhennus).

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Deunyddiau
- Ffi'r artist
- Costau eraill yn dibynnu ar y rhaglen benodol

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**http://www.d6culture.org/**

## Delfina Foundation a phartneriaid cyllido

### * Rhaglen Breswyl, 'Brooks International Fellowship Programme' yn Tate a Delfina Foundation

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl (artistiaid, curaduron ac awduron)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol (ymarfer artistig cyfoes)
- Curaduron
- Awduron (y celfyddydau gweledol cyfoes)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Amryw o raglenni a buddiolwyr cymwys (galwad agored yn 2023: am artistiaid wedi'u lleoli yn yr Iseldiroedd, Dwyrain/Gogledd-ddwyrain India, yn rhyngwladol)
- Partneriaethau presennol â sefydliadau sy'n canolbwyntio ar artistiaid o Affrica, Asia a'r Môr Tawel, Bangladesh, Brasil, Gweriniaeth Tsiec, Ecuador, Groeg, India, Iran, Korea, America Ladin a'r Caribî, y Dwyrain Canol, Gogledd Affrica a De Asia, yr Iseldiroedd, Periw, Twrci
- Y buddiolwyr sy'n cael eu targedu: ymarferwyr diwylliannol ar bob lefel yn eu gyrfa, o egin weithwyr celfyddydol i rai proffesiynol sydd wedi ennill eu plwyf (mae rhai rhaglenni thematig yn targedu buddiolwyr penodol)

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Llundain
⇒ 2023 Encil ar Wasgar yn cynnwys sesiwn breswyl yng nghefn gwlad Ffrainc
⇒ Rhaglenni preswyl blaenorol wedi'u trefnu mewn partneriaeth â sefydliadau yn São Paulo (Brasil), Halabja (Irac-Cwrdistan), Damascus (Syria), Granada (Sbaen), Bethlehem (Palesteina), Muscat (Oman), Dubai (Yr Emiraethau Arabaidd Unedig), Beirut (Lebanon), Cordoba (Sbaen), a Ramallaj (Palesteina).

**Blaenoriaethau eraill**
Rhaglenni thematig amrywiol, gyda gwahanol flaenoriaethau (e.e. Gwleidyddiaeth Bwyd, Casglu fel Ymarfer, Gwyddoniaeth_Technoleg_Cymdeithas, Perfformio fel Proses). Mae rhaglenni thematig newydd wrthi'n cael eu datblygu.

**Y costau sy'n berthnasol**
Mae'r costau sy'n berthnasol yn amrywio yn dibynnu ar y rhaglen (edrychwch ar y canllawiau) – e.e. mae galwad agored ar hyn o bryd yn cynnwys:
- Teithio dros ffiniau
- Fisâu
- Llety
- Per diem
- Cyllideb ar gyfer deunyddiau
- Trwydded deithio leol

**Gwelwyd ddiwethaf** 06/03/2023

**https://www.delfinafoundation.com/**

## Finnish Institute (yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon)

### * Cyfnod Preswyl 'Mind the Gap'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnod preswyl i artistiaid (yn Stiwdios ACME, Llundain)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Gwladolion y Ffindir
- Artistiaid sy'n byw yn y Ffindir

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Y Deyrnas Unedig (Llundain)

**Blaenoriaethau eraill**
Mae cyfnod preswyl 2023 yn nodi hanner canmlwyddiant stiwdios ACME a 30 mlynedd o ResArtis, ac yn cynnwys mynychu cynhadledd ResArtis yn Llundain (Medi 2023). Mae'r rhaglen yn un flynyddol.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Cyfnod preswyl byw/gweithio 3 mis yn Llundain
- Llety
- Lle gweithio
- Costau byw artistiaid

**Sylwadau penodol**
Mae gan ACME gant hygyrchedd dewisol ar gael i helpu gydag anghenion hygyrchedd personol artistiaid B/byddar/anabl/niwroamrywiol

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://acme.org.uk/artist-support/mind-the-gap-residency-2023/**

## Friends of the Scott Polar Research Institute (SPRI)

### * 'Friends of SPRI/HMS PROTECTOR Artists in Residence Programme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl (lleoliad 4 wythnos yn yr Antarctig ar un o longau'r Llynges Frenhinol; lleoliad 2 wythnos yn yr Arctig ar long fordeithio)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol
- Gweler y rhaglenni penodol ar gyfer y disgyblaethau cymwys

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Gwladolion y Deyrnas Unedig, 18+ oed
- Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion ffitrwydd meddygol

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Teithiau morol i'r Arctig a'r Antarctig

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio dros ffiniau (gan gynnwys lwfans ar gyfer teithio domestig yn y Deyrnas Unedig)
- Llety, bwyd, gwibdeithiau
- Dillad i'r pegwn

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://www.spri.cam.ac.uk/friends/artistinresidence/**

## Gasworks a phartneriaid cyllido

### * Cyfnodau preswyl i artistiaid (rhaglenni amrywiol)

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

Rhaglenni a buddiolwyr amrywiol (edrychwch ar y galwadau agored):
- Cynigiwyd cyfnodau preswyl yn 2023 drwy alwad agored, gyda gofynion cymhwysedd yn ymwneud â byw mewn gwledydd penodol ar gyfer artistiaid wedi'u lleoli ym Mheriw, Ecuador, Pacistan, India, Sbaen, yr Eidal ac Ynysoedd Philippines

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Y Deyrnas Unedig (Gasworks, Llundain)

**Blaenoriaethau eraill**
Mae Gasworks yn rhaglennu hyd at un ar bymtheg o gyfnodau preswyl bob blwyddyn, gan wahodd egin artistiaid rhyngwladol a rhai ar ddechrau'u gyrfaoedd i weithio gyda chymuned o naw o gymheiriaid yn Llundain am dri mis. Mae rhai cyfnodau preswyl yn cael eu cynnig drwy alwad agored a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar wledydd penodol.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Fisâu
- Costau byw
- Cyllideb ar gyfer deunyddiau
- Cerdyn teithio
- Cymorth ac ymweliadau â stiwdios

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://www.gasworks.org.uk/residencies/**

## Hessische Kulturstiftung

### * Cyfnod preswyl i artistiaid yn ACME, Llundain / Atelierstipendium Llundain

**Ieithoedd y cynllun** Almaeneg, **Saesneg**

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid gweledol sydd wedi ennill eu plwyf, ac sydd wedi'u geni yn Hesse, sy'n byw yn barhaol yma, neu sydd â diploma o academi gelf yn Hesse.

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Llundain

**Blaenoriaethau eraill**
Ers 1992 mae Sefydliad Diwylliannol Hesse (Hessische Kulturstiftung) wedi bod yn darparu rhaglen ysgoloriaeth ac iddi enw da i artistiaid gweledol sydd wedi'u geni yn Hesse, sy'n byw yn barhaol yma, neu sydd â diploma o academi gelf yn Hesse. Mae'r ysgoloriaethau'n cael eu rhoi bob dwy flynedd ac yn cynnwys y cyfnod preswyl 12 mis yn stiwdio'r sefydliad yn Llundain.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety a stiwdio
- Costau byw
- Cymorth yn ystod y cyfnod preswyl a rhwydweithio

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.hkst.de/en/scholarships/studios/**

## Institut français du Royaume-Uni, Arts Council England, Creative Scotland, Cyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council of Northern Ireland

### * Cyfnodau Preswyl Magnetic

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Ffrangeg, Cymraeg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i artistiaid
- Cynllun ar y cyd rhwng Ffrainc a'r Deyrnas Unedig yw Magnetic sy'n dwyn ynghyd wyth o leoliadau i greu rhaglen newydd o gyfnodau preswyl rhwng 2 a 3 mis i artistiaid: pedwar yn Ffrainc i artistiaid o'r Deyrnas Unedig a phedwar yn y Deyrnas Unedig i artistiaid o Ffrainc. Bydd Magnetic yn graddol ddatblygu rhwydwaith o sefydliadau partner sydd ag ymrwymiadau a gwerthoedd cyffredin.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid sy'n byw yn y Deyrnas Unedig (ar gyfer cyfnodau preswyl yn Ffrainc)
- Artistiaid sy'n byw yn Ffrainc (ar gyfer cyfnodau preswyl yn y Deyrnas Unedig)
- Ar gyfer y naill raglen a'r llall, rhaid i artistiaid gweledol cymwys fod wedi bod yn byw ac yn gweithio yn Ffrainc a'r Deyrnas Unedig am o leiaf 3 blynedd ac wedi cyflwyno'u gwaith mewn o leiaf un sefydliad celf cyfoes proffesiynol.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ (Y Deyrnas Unedig → Ffrainc)
⇐ (Ffrainc → Y Deyrnas Unedig)

**Blaenoriaethau eraill**

Mae materion cymdeithasol ac amgylcheddol yn ganolog i'r rhaglen, gyda disgwyl i'r artistiaid a ddewisir weithio yn unol â ffocws pob cyfnod preswyl, ac yn unol â phob cyd-destun penodol – yn ddaearyddol, hanesyddol, cymdeithasol, artistig ac yn y blaen.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Llety
- Ffi misol (telir costau teithio)
- Mathau eraill o gymorth tuag at y cyfnod preswyl

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://fluxusartprojects.com/residencies**

## Khazanah Nasional

### * Khazanah Arts Residency at ACME, London

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Bahasa Malaysia

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Egin artistiaid gweledol o Malaysia

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Llundain

**Blaenoriaethau eraill**

- Cyhoeddir y cyfnod preswyl drwy alwad agored. Mae'r broses ddethol hefyd yn cynnwys elfen o enwebu, gan weithio gydag orielau a threfnwyr cyfnodau preswyl ym Malaysia ac ACME.
- Mae'r rhaglen yn un o'r cynlluniau meithrin capasiti niferus sydd gan Khazanah fel rhan o'r strategaeth hirdymor i hyrwyddo Malaysia.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety a gofod stiwdio
- Costau eraill a mathau eraill o gymorth

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.khazanah.com.my/our-community/khazanah-residency-programme/**

## Landis & Gyr Foundation

### * Cyfnodau preswyl Landis & Gyr Foundation yn ACME, Smithy Street, Llundain

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl artistig ac ymchwil yn Stiwdios ACME, Llundain

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Llenyddiaeth
- Cyfansoddi
- Beirniadaeth ddiwylliannol/curaduriaethau
- Theatr (cyfarwyddo, dramäwriaeth, ysgrifennu dramâu)
- Dawns
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid o'r Swistir a gweithwyr diwylliannol proffesiynol yn y Swistir
- Artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol nad ydyn nhw o'r Swistir ond sydd wedi byw'n swyddogol yn y Swistir am o leiaf dair blynedd wrth gyflwyno'r cais
- Mae angen i'r holl ymgeiswyr fod â record ragorol o gyflawni yn un o'r disgyblaethau celfyddydol
- Nid yw'r cyfnodau preswyl wedi'u dylunio i gefnogi artistiaid ar ddechrau'u gyrfaoedd
- Dim cyfyngiad oedran

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Llundain (Stiwdios ACME)

**Blaenoriaethau eraill**

Nid yw'r cyfnodau preswyl yn addas i aros gyda phlant

**Y costau sy'n berthnasol**

- Costau teithio
- Llety a gofod stiwdio
- Costau byw misol
- Bydd cyfraniadau gorfodol at yswiriant cymdeithasol yn y Swistir yn cael eu tynnu o'r swm ar gyfer cyfnodau preswyl, grantiau teithio a grantiau i artistiaid sy'n werth CHF 10,000 neu ragor.

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/03/2023

**https://www.lg-stiftung.ch/page/en/stipendien/atelierstipendien/**

## Making Tracks a phartneriaid cyllido

### * Cyfnod Preswyl a Thaith Ryngwladol Making Tracks ar gyfer Cyfnewid Cerddoriaeth

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Prosiect rhyngwladol i gyfnewid cerddoriaeth: cyfnod preswyl i artistiaid grŵp (Cove Park, yr Alban) a thaith drwy'r Deyrnas Unedig wedi'i seilio ar ddwy thema – traddodiadau cerddorol a'r byd naturiol.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Byd-eang (dewisir 8 o Gymrodyr: mae'r rhan fwyaf o'r cerddorion sy'n cael eu dewis wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig a mannau eraill yn Ewrop).
- Egin gerddorion proffesiynol eithriadol, a cherddorion mwy profiadol sy'n haeddu cydnabyddiaeth ehangach

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig – Cyfnod preswyl yn Cove Park, yr Alban, a thaith gerddorol o amgylch amryw o leoliadau yn y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

Mae mwyafrif y cerddorion sy'n cael eu dethol o dan 35 oed.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Hwyluso'r cyfnod preswyl a threfnu'r daith
- Costau byw artistiaid

**Sylwadau penodol**

- - Mae ymwneud â'r amgylchedd yn faen prawf ar gyfer dethol: chwilir am gerddorion sy'n frwd dros fyd natur, sy'n ei ddefnyddio yn ysbrydoliaeth greadigol, ac/neu sy'n awyddus i leihau eu heffaith amgylcheddol neu i wella ymwybyddiaeth pobl
- o faterion amgylcheddol fel y newid yn yr hinsawdd neu'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.
- - Bydd yr holl artistiaid a ddewisir o dir mawr Ewrop yn teithio i gyfnod preswyl Making Tracks ar drên, fel rhan o waith y prosiect i archwilio a datblygu arferion teithio sy'n fwy cyfrifol yn amgylcheddol, ac i helpu i leihau ei ôl-troed carbon yn uniongyrchol. Fel rhan o hyn, telir costau byw dyddiol ar gyfer pob diwrnod a dreulir ar y daith, gan ddefnyddio'r siwrneiau i ddechrau sgyrsiau am gerddoriaeth a'r amgylchedd. Ers 2019, yn ôl yr amcangyfrif, mae ffocws y prosiect ar deithio ar drenau wedi helpu i sicrhau gostyngiad o 79% yn ei allyriadau trafnidiaeth.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://makingtracksmusic.org/**

## New Contemporaries

### * 'New Contemporaries Research Residency with British School at Rome'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd** Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol** Y celfyddydau gweledol (pob cyfrwng)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Artistiaid eithriadol ac uchelgeisiol sydd wedi arddangos fel rhan o New Contemporaries rhwng 2011 a 2020, yn cynnwys y blynyddoedd hynny
- Arddangosfa a gynhelir yn Llundain yw New Contemporaries ac mae'n dethol drwy alwad agored, gan gyflwyno egin artistiaid cyfoes a rhai ar ddechrau'u gyrfaoedd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig.
- Nid yw pobl sydd wedi cael cyfleoedd blaenorol yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain yn gymwys i wneud cais.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Yr Eidal (Rhufain)

**Blaenoriaethau eraill**

Croesewir ceisiadau'n benodol gan artistiaid sy'n arddel hunaniaeth Ddu, Asiaidd neu ethnig amrywiol, artistiaid LHDTC+, ac artistiaid sydd ag anableddau, ynghyd â grwpiau economaidd-gymdeithasol eraill sydd o bosibl heb allu manteisio ar gyfleoedd tebyg o'r blaen.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Costau teithio
- Ysgoloriaeth ymchwil
- Llety a bwyd yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain (BSR)

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.newcontemporaries.org.uk/projects/new-contemporaries-research-residency-with-british-school-at-rome**

# Nordic Alliance of Artists' Residencies on Climate Action (NAARCA) a phartneriaid cyllido

## * Comisiwn Ysgrifennu NAARCA

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cyfnod preswyl i artistiaid mewn dau safle (yr Alban a'r Ffindir) gyda theithio araf wedi'i gynnwys

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ysgrifennu

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Awduron o'r Alban sy'n gysylltiedig â chanolfan breswyl ryngwladol Cove Park
- Bydd amodau cymhwysedd eraill yn berthnasol i gomisiynau a chyfnodau preswyl NAARCA yn y dyfodol.

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Y Ffindir

**Blaenoriaethau eraill**

Mae'r comisiwn yn rhan o raglen dair blynedd ehangach gan NAARCA sy'n creu rhwydwaith o gyfnodau preswyl i artistiaid yn yr Alban, y Ffindir, Norwy, Denmarc, Sweden, yr Ynys Las a Gwlad yr Iâ, er mwyn cydweithio ar ymchwil, newid sefydliadol ac addysg gyhoeddus ynghylch gweithredu ym maes yr hinsawdd.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Cymorth tuag at y cyfnod preswyl
- Cynhaliaeth / costau byw

**Sylwadau penodol**

- Cafodd NAARCA, a ddyluniwyd ar y cyd gan Cove Park a Saari Residence (y Ffindir) ei lansio ym mis Tachwedd 2021 a'i nod yw creu pont hirdymor rhwng yr Alban a'r gwledydd Nordig i archwilio problem fyd-eang fwyaf ein hoes.
- Mae'r cydweithio wedi'i seilio ar y tebygrwydd daearegol, hinsoddol, hanesyddol ac ieithyddol sy'n uno'r ddau ranbarth, ac mae'n fan cychwyn ar gyfer creu rhwydwaith parhaol, eang a chyfannol ar gyfer cydweithio.
- Mae comisiwn ysgrifennu NAARCA yn cynnwys cyfnodau preswyl yn yr Alban (Cove Park) a'r Ffindir (Saari Residence), gyda theithio araf rhwng y ddau leoliad.

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://naarca.art/**

## Sefydliad PRS

### * 'Musician in Residence' gyda'r British Council

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig
- Pobl sy'n creu cerddoriaeth

**Cyrchfan(nau)**
Cynlluniau amrywiol mewn partneriaeth â'r British Council
⇒ Tsieina, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Brasil (2023)
⇒ Cyfnodau preswyl rhithwir gyda Brasil, Indonesia, yr Aifft, De Affrica (2022)

**Y costau sy'n berthnasol**
Nid oedd y canllawiau ar gael pan gyhoeddwyd y ddogfen hon

**Gwelwyd ddiwethaf** 06/03/2023

**https://prsfoundation.com/funding-support/funding-music-creators/international/musician-residence-british-council/**

## Tyrone Guthrie Centre a phartneriaid cyllido

### * Rhaglenni preswyl amrywiol

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Llenyddiaeth
- Barddoniaeth
- Dawns
- Y celfyddydau gweledol
- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Mae gan y Tyrone Guthrie Centre (sydd wedi'i lleoli yng Ngweriniaeth Iwerddon) nifer o gynlluniau trawsffiniol rhwng partneriaethau sy'n cyllido cyfnodau preswyl i artistiaid ac awduron o Ogledd Iwerddon – mae'r manylion yn y rhaglen ar gyfer partneriaethau ysgoloriaethau. Darperir rhywfaint o gyllid drwy awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon, a rhywfaint drwy gymdeithasau cenedlaethol ar gyfer ynys Iwerddon.
- Ar gyfer rhaglenni rhyngwladol eraill y Tyrone Guthrie Centre (rhwng Iwerddon a thrydydd gwledydd), gweler y rhan o'r wefan sy'n sôn am gyfnewidfeydd a chyfnodau preswyl rhyngwladol.

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Iwerddon (o Ogledd Iwerddon)

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio
- Llety
- Gweler y rhaglenni ar gyfer y costau eraill a ddarperir

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.tyroneguthrie.ie/Bursary-Partnerships-on-the-island-of-Ireland**

## Academi Celfyddyd Gain Uniarts Helsinki a'r Saastamoinen Foundation

### * Rhaglen 'Alumni residency' yn SPACE, Llundain

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Ffinneg, Swedeg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Graddedigion MFA o Academi Celfyddyd Gain Helsinki
- Cyn-fyfyrwyr newydd a graddedigion diweddar o bob oed

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Llundain

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Stiwdio
- Defnyddio cyfarpar
- Cefnogaeth, rhwydweithio, mentora
- Costau byw a lwfans cynhyrchu

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.uniarts.fi/en/guides/how-to-apply-for-space-london/**

### * 'Ecologies in the Making: Sculpting Futures' – rhaglen breswyl i gyn-fyfyrwyr yn y Scottish Sculpture Workshop a Cove Park

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Ffinneg, Swedeg

**Y math o symudedd**

- Cyfnodau preswyl i artistiaid

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Cerflunwaith
- Y celfyddydau gweledol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Graddedigion MFA o Academi Celfyddyd Gain Helsinki
- Cyn-fyfyrwyr a graddedigion diweddar o bob oed
- Ymwneud ag ymchwil a datblygu ar gyfer dulliau ecolegol a chyd-destunau ymarfer artistig

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Yr Alban

**Blaenoriaethau eraill**

Mae'r rhaglen yn gwahodd ceisiadau gan y rheini sydd eisoes yn archwilio ecolegau creu a'r rheini sy'n dymuno rhoi pwyslais neu bwyslais o'r newydd neu feithrin perthnasau gyda phethau y tu hwnt i'r dynol yn ein byd wrth iddo gynhesu. Y nod yw cefnogi artistiaid i ymchwilio a datblygu dulliau ecolegol a chyd-destunau ar gyfer eu hymarfer artistig.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Stiwdio
- Defnyddio cyfarpar
- Cefnogaeth, rhwydweithio, mentora
- Costau byw a lwfans cynhyrchu

**Sylwadau penodol**

Cynigir cyllideb hygyrchedd ychwanegol i helpu artistiaid sydd ag anghenion cymorth hygyrchedd neu gyfrifoldebau gofalu i gymryd rhan yn y cyfnod preswyl.

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.uniarts.fi/en/projects/international-incubators-in-fine-arts/#alumni-residencies**

**https://www.ssw.org.uk/ecologies-in-the-making-sculpting-futures-residency-for-uniarts-helsinki-alumni/**

# D. Cymrodoriae-thau ac ysgoloriaethau

## Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC)

### * Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau ymchwil

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ymchwil (yn canolbwyntio ar ddisgyblaeth benodol, neu fwy nag un, ac/neu yn gysylltiedig â sector arall ar wahân i'r celfyddydau)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Ymchwilwyr ac arloesol ar ddechrau'u gyrfaoedd

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

- Mae ymchwilwyr ac arloeswyr yn gymwys i gael fisa Talent Fyd-eang o dan y categori 'addewid eithriadol' ar gyfer arweinwyr ymchwil y dyfodol. Rhaid iddyn nhw gael cefnogaeth y sefydliad sy'n eu lletya.
- Rhaid i'r cymrodoriaethau gael eu cynnal mewn sefydliad yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid gan y cynghorau ymchwil.

**Y costau sy'n berthnasol** Gall y gymrodoriaeth dalu am y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Teithio
- Cynhaliaeth
- Arall: costau gofal plant

**Gwelwyd ddiwethaf** 22/04/2023

**https://www.ukri.org/opportunity/future-leaders-fellowships-round-8/**

## British Council

### * Ysgoloriaethau 'GREAT'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Ysgoloriaethau ffioedd dysgu

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ffurfiau celfyddydol amrywiol (gweler y gwledydd sy'n gymwys i ganfod y cyrsiau a'r prifysgolion penodol)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Mae Ysgoloriaethau GREAT ar gael i fyfyrwyr o'r gwledydd canlynol: Bangladesh, Tsieina, yr Aifft, Ghana, Kenya, India, Indonesia, Malaysia, Mecsico, Nigeria, Pacistan, Gwlad Thai, Twrci, Fietnam. Gweler y rhaglenni i ganfod y gofynion cymhwysedd.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

Mae pob ysgoloriaeth yn cael ei hariannu ar y cyd gan y llywodraeth drwy'r 'GREAT Britain Campaign' a'r British Council gyda'r sefydliadau addysg uwch sy'n cymryd rhan.

**Y costau sy'n berthnasol**

£10,000 tuag at ffioedd dysgu amrywiaeth eang o gyrsiau ôl-raddedig a addysgir sy'n para blwyddyn

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://study-uk.britishcouncil.org/scholarships-funding/great-scholarships**

## Yr Amgueddfa Brydeinig

### * 'International Training Programme' (ITP)

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Rhaglen ryngwladol i rannu sgiliau ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes amgueddfeydd a threftadaeth o amgylch y byd

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Astudiaethau amgueddfaol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Gweithwyr proffesiynol yn y maes amgueddfeydd a threftadaeth, yn fyd-eang (curaduron, cadwraethwyr, rheolwyr ac addysgwyr)
- Mae'r cymrodorion naill ai yng nghamau cynnar neu ar ganol eu gyrfaoedd, neu mewn swyddi dylanwadol ac yn gallu defnyddio'u hyfforddiant i ddatblygu cydweithwyr gartref. Mae'r holl gymrodorion yn frwd dros gydweithio rhyngwladol.
- Mae amodau penodol yn berthnasol o ran y gwledydd cymwys, ac yn newid ym mhob rhaglen, yn unol â'r gwledydd sydd wedi'u dewis, y sefydliadau dan sylw, a blaenoriaethau strategol yr Amgueddfa Brydeinig: yn 2022, dewiswyd Cymrodorion ITP o Abu Dhabi, Armenia, Brasil, yr Aifft, India, Indonesia, Jordan, Kiribati, Nigeria, Periw, Singapore, Sudan a Tunisia. Mae'r rhwydwaith byd-eang o Gymrodorion ITP yn ymestyn i 50 o wledydd.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig (Llundain ac amgueddfeydd partner yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)

**Blaenoriaethau eraill**

- Mae rhwydwaith o amgueddfeydd a gweithwyr proffesiynol yn rhan o'r broses ddewis a'r broses o drefnu'r rhaglen – holwch am fanylion.
- Rhan hanfodol o'r rhaglen flynyddol yw'r amser a dreulir mewn amgueddfa arall yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn galluogi'r cyfranogwyr i brofi amgueddfeydd ar safleoedd niferus neu amgueddfeydd prifysgolion, yn ogystal â dulliau ac arferion gwahanol.
- Mae hefyd yn helpu amgueddfeydd partner yr Amgueddfa Brydeinig yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu eu perthnasau rhyngwladol.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Fisâu
- Llety
- Cynhaliaeth
- Cyllideb ar gyfer ymchwil bersonol a llyfrgelloedd sefydliadol
- Cymorth cyn-fyfyrwyr

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.britishmuseum.org/our-work/international/international-training-programme**

## Yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain

### * 'Rome Fellowships', 'Rome Scholarships', 'Rome Awards'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cymrodoriaethau ymchwil preswyl

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Maes ymchwil: y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol (unrhyw agwedd ar ddiwylliannau cymdeithasol, crefyddol, gwleidyddol ac
- economaidd penrhyn yr Eidal, a'r broses ehangach o'u lledaenu a'u dehongli yn destunol, yn weledol ac yn faterol o'r cyfnod cynhanesyddol cynnar i'r cyfnod modern).

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Dinasyddion Prydain (mae dinasyddion y Gymanwlad hefyd yn gymwys i rai rhaglenni).
- Cefnogir lefelau academaidd amrywiol (mae'r canllawiau'n dangos pwy sy'n gymwys o dan bob cynllun).

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Yr Eidal (Rhufain)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Grant ymchwil a theithio misol
- Llety a bwyd yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain (BSR)

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://bsr.ac.uk/awards-residencies-humanities-early-career-opportunities**

## Comisiwn Ysgoloriaethau'r Gymanwlad (wedi'i ariannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig: yr Adran Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r prifysgolion sy'n lletya yn y Deyrnas Unedig)

### * Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau'r Gymanwlad

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Ysgoloriaethau i fyfyrwyr ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn y Deyrnas Unedig (graddau Meistr a PhD) a Chymrodoriaethau Proffesiynol

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Dim manylion

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Dinasyddion gwledydd cymwys yn y Gymanwlad

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Blaenoriaethau eraill**

Cynigir Ysgoloriaethau'r Gymanwlad o dan chwe thema datblygu – nid oes yr un yn crybwyll y celfyddydau a diwylliant yn benodol, ond gallai hynny gael ei gynnwys yn dibynnu ar y maes astudio.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Gweler y rhaglenni penodol sy'n rhoi'r manylion
- Mae'r cymorth ariannol yn cynnwys costau awyrennau, ffioedd dysgu, costau byw, lwfans dillad cynnes, grant teithio ychwanegol i astudio pan fydd galw, lwfansau ar gyfer plant.

**Sylwadau penodol** Mae cymorth i bobl anabl ar gael

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://cscuk.fcdo.gov.uk/**

# Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu

## * Ysgoloriaethau Chevening

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Ysgoloriaethau

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob un

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Dinasyddion gwledydd neu diriogaethau sy'n gymwys i gael ysgoloriaethau Chevening
- Rhaid dychwelyd i wlad eich dinasyddiaeth am o leiaf ddwy flynedd ar ôl i'r dyfarniad ddod i ben.
- Rhaid bod wedi cwblhau pob rhan o radd israddedig a fydd yn eich galluogi i gymryd rhan mewn rhaglen ôl-raddedig yn un o brifysgolion y Deyrnas Unedig erbyn yr adeg pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais. Mae hyn gan amlaf yn cyfateb i radd anrhydedd ail ddosbarth uwch 2:1 yn y Deyrnas Unedig, ond gallai fod yn wahanol yn dibynnu ar eich cwrs a'ch dewis o brifysgol.
- O leiaf ddwy flynedd (yn cyfateb i 2,800 awr) o brofiad gwaith
- Wedi gwneud cais i dri chwrs prifysgol cymwys yn y Deyrnas Unedig ac wedi cael cynnig diamod gan un o'r rhain erbyn dyddiad dynodedig rhaglen y flwyddyn.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Y costau sy'n berthnasol**
Ffioedd Dysgu Prifysgol (yn dibynnu ar y wlad lle gwneir y cais)

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.chevening.org/**

## * Ysgoloriaethau Marshall

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Ysgoloriaeth

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob un

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Dinasyddion Unol Daleithiau America (pan wneir y cais)
- Yn meddu ar radd israddedig dosbarth cyntaf yn dilyn cwrs pedair blynedd mewn coleg neu brifysgol yn yr Unol Daleithiau pan ddaw'n adeg i gael yr ysgoloriaeth
- Wedi cael cyfartaledd pwyntiau gradd o ddim llai na 3.7 yn y radd israddedig ar yr adeg pan wneir y cais
- Ddim wedi astudio neu ddim yn meddu ar radd neu gymhwyster sy'n cyfateb i radd o Brifysgol ym Mhrydain nac wedi dilyn TGAU neu Safon Uwch mewn ysgol yn y Deyrnas Unedig.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig

**Y costau sy'n berthnasol**
Ffioedd prifysgol, treuliau costau byw, grant llyfrau blynyddol, grant traethawd, grantiau ymchwil a theithio dyddiol, tocynnau i'r Unol Daleithiau ac oddi yno, a phan fydd hynny'n berthnasol, cyfraniad tuag at gynnal cymar dibynnol

**Gwelwyd ddiwethaf** 23/03/2023

**https://www.marshallscholarship.org/scholars**

## Frankfurter Buchmesse / Ffair Lyfrau Frankfurt

### * 'Frankfurt Fellowship Programme'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg, Almaeneg

**Y math o symudedd**

- Rhaglen hyfforddiant, rhwydweithio a datblygu proffesiynol ddwys i gyhoeddwyr, golygyddion, rheolwyr trwyddedu a hawliau, ac asiantau llenyddol o bob rhan o'r byd, yn Ffair Lyfrau Frankfurt.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant cyhoeddi

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Yn gymwys ledled y byd, dim cyfyngiadau oedran
- Sawl blwyddyn o brofiad yn y byd cyhoeddi (o leiaf tair)
- Sgiliau Saesneg da
- Tri llythyr yn rhoi argymhelliad gan bartneriaid busnes rhyngwladol a llythyr yn rhoi argymhelliad gan gyflogwr yr ymgeisydd

**Cyrchfan(nau)**

⟹ Yr Almaen (Ffair Lyfrau Frankfurt)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio a llety yn yr Almaen
- Rhaglen gymrodoriaeth

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.buchmesse.de/en/fellowship-and-grant-programmes/frankfurt-fellowship**

## Henry Moore Foundation

### * 'Visiting Research Fellowships', 'Artist Research Fellowships', Grantiau Ymchwil a Theithio

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cymrodoriaeth ymchwil 1 mis yn yr Henry Moore Institute, Leeds
- Grantiau ymchwil a theithio

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol (astudio cerflunwaith)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Academyddion neu guraduron unigol sy'n gweithio ym maes cerflunwaith hanesyddol a chyfoes
- Artistiaid sy'n dymuno datblygu eu hymarfer drwy waith ymchwil, gan ddefnyddio adnoddau'r sefydliad (ymchwil i gerflunwaith a'i hanes)
- Unrhyw genedligrwydd/yn byw yn unrhyw le

**Cyrchfan(nau)**

⟸ Y Deyrnas Unedig (Henry Moore Institute, Leeds)

⟹ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

Astudio cerflunwaith, gan ddefnyddio adnoddau'r Henry Moore Institute (IM)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Llety
- Cynhaliaeth
- Defnydd o archif
- Uchafswm grant £2,500

**Sylwadau penodol**

Mae HMI yn rhoi gwerth ar amgylchedd gweithio amrywiol ac yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://henry-moore.org/discover-and-research/sculpture-research-programme/visiting-research-fellowships/**

## Leverhulme Trust

### * 'International Fellowships'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Ar gyfer ymchwilwyr sydd wedi ennill eu plwyf i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a syniadau newydd mewn un ganolfan ymchwil neu ragor y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- Gall y sefydliadau lletya dramor fod yn brifysgolion, yn amgueddfeydd neu'n sefydliadau ymchwil o unrhyw fath.
- Mae'r cymrodoriaethau'n gallu para rhwng 3 mis a 24 mis.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol
- Curaduron/gweinyddwyr celfyddydol amgueddfeydd ac orielau

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn byw yn y Deyrnas Unedig pan wneir y cais
- Rhaid i ymgeiswyr fod â swydd mewn sefydliad addysg uwch, neu amgueddfa, oriel gelf neu sefydliad tebyg, yn y Deyrnas Unedig, a rhaid iddyn fod wedi bod mewn swydd o'r fath am y tair blynedd ddiwethaf, fan lleiaf
- Ni chaiff ymgeiswyr fod wedi'u cofrestru i wneud gradd, nac i ddilyn astudiaethau doethuriaeth neu gymwysterau proffesiynol neu alwedigaethol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio
- Grant cynhaliaeth i adlewyrchu costau uwch byw dramor
- Llety a chynhaliaeth
- Costau ymchwil a chostau gweinyddol hanfodol
- Costau rhesymol i lenwi'r swydd tra bo'r Cymrawd dramor
- £50,000 yw'r swm uchaf y gellir ei roi ar gyfer Cymrodoriaeth

**Sylwadau penodol**

- Gall cymrodoriaeth gynnwys cyfraniad tuag at gostau partner a/neu blant sy'n teithio gyda'r ymgeisydd dramor. Gallai'r costau gynnwys costau awyrennau, yswiriant a throsglwyddiadau, costau tai uwch a chostau cynhaliaeth
- Yr unigolyn sydd i wneud y cais a rhaid i Swyddog Gweinyddol ei gymeradwyo ar ran y sefydliad sy'n ei gyflogi.

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.leverhulme.ac.uk/international_fellowships**

## * 'Study Abroad Studentships'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Ysgoloriaethau astudio dramor
- Mae'r ysgoloriaethau ymchwil yn gallu para rhwng 12 a 24 mis

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Pob ffurf gelfyddydol

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r amodau canlynol:

- Byddan nhw wedi byw yn y Deyrnas Unedig am o leiaf dair blynedd pan wneir y cais.
- Bydd ganddyn nhw radd israddedig (nid yw israddedigion yn gymwys).
- Bydd ganddyn nhw radd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig (naill ai'r radd israddedig neu radd bellach sydd gan yr ymgeisydd). Gall y rheini sy'n astudio am PhD yn y Deyrnas Unedig ac sydd fel arall heb radd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig wneud cais cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf eraill ar gyfer bod yn gymwys.
- Byddan nhw naill ai'n fyfyrwyr pan wneir y cais neu byddan nhw wedi'u cofrestru fel myfyrwyr yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf.
- Rhaid esbonio pam fod eu gwaith yn galw am gyfnod preswyl dramor.

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang (ac eithrio yn y Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America)

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio (tocyn awyren dwyffordd a lwfans bagiau)
- Lwfans cynhaliaeth gwerth £23,040 y flwyddyn
- Lwfans gwerth £7,000 pan fydd partner dibynnol yn teithio gyda'r myfyriwr
- Telir lwfansau ychwanegol fel y gwêl yr Ymddiriedolaeth yn dda, e.e.: cyfraniad at ffioedd tramor, costau teithio mewnol sy'n gysylltiedig a'r cwrs astudio neu'r ymchwil, a threuliau gwaith maes

**Sylwadau penodol**

- Gall cymrodoriaeth gynnwys cyfraniad tuag at gostau partner a/neu blant sy'n teithio gyda'r ymgeisydd dramor. Gallai'r costau gynnwys costau awyrennau, yswiriant, trosglwyddiadau, costau tai uwch a chynhaliaeth
- Yr unigolyn sydd i wneud y cais a rhaid i Swyddog Gweinyddol ei gymeradwyo ar ran y sefydliad sy'n ei gyflogi.

**Gwelwyd ddiwethaf** 21/03/2023

**https://www.leverhulme.ac.uk/study-abroad-studentships**

## Paul Mellon Centre

### * 'Research Support Grants'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau ymchwil (ym maes hanes celf ym Mhrydain)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol (hanes celf neu hanes pensaernïaeth ym Mhrydain)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Academyddion, ysgolheigion, myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwilwyr annibynnol (unrhyw genedligrwydd)

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig
⇒ Byd-eang (casgliadau, llyfrgelloedd, archifau neu safleoedd hanesyddol perthnasol y tu allan i'r Deyrnas Unedig)

**Blaenoriaethau eraill**
Cymorth ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil, ymchwil academaidd a lledaenu gwybodaeth ym meysydd hanes celf a hanes pensaernïol ym Mhrydain, a diwylliant gweledol ym Mhrydain mewn ystyr ehangach.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Llety
- Cynhaliaeth – cyfradd ddyddiol
- Costau gofal dibynyddion yr unigolyn
- Uchafswm y grant: £2,000

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://www.paul-mellon-centre.ac.uk/fellowships-and-grants/research-support-grants**

### * 'Rome Fellowship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cymrodoriaeth ymchwil 3 mis i unigolyn weithio yn Rhufain ar bwnc sy'n canolbwyntio ar elfen weledol sy'n berthnasol i gyswllt, cyfnewid a dylanwad Eingl-Eidalaidd, mewn unrhyw gyfnod o'r canoloesoedd ymlaen.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Hanes celfyddyd weledol/celf

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Unigolion o unrhyw wlad, sy'n rhugl yn y Saesneg ac y mae'n rhaid iddyn nhw fod â gwybodaeth ddigonol o Eidaleg neu'r parodrwydd i ymwneud â'r iaith
- Ar agor i ysgolheigion, ymchwilwyr, curaduron a gweithwyr proffesiynol eraill mewn orielau, llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd, o'r rheini sydd newydd gwblhau doethuriaeth i'r rheini sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn eu meysydd arbenigol

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Yr Eidal

**Blaenoriaethau eraill**
Ffocws ar gyswllt diwylliannol Eingl-Eidalaidd mewn unrhyw gyfnod

**Y costau sy'n berthnasol**

- Llety a phrydau bwyd
- Tâl cydnabyddiaeth (ar gyfer costau teithio a chostau eraill)
- Gwersi Eidaleg, os bydd angen y rheini

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://www.paul-mellon-centre.ac.uk/fellowships-and-grants/rome-fellowship**

## Sefydliad PRS

### * Cymrodoriaethau Classical:NEXT

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Mynychu digwyddiad (cynhadledd Classical:NEXT)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Cerddoriaeth

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig
- Cyfansoddwyr cerddoriaeth (clasurol a cherddoriaeth gelfyddydol)

**Cyrchfan(nau)**
⇒ Lleoliad cynhadledd ryngwladol Classical:NEXT

**Y costau sy'n berthnasol**
- Teithio dros ffiniau
- Llety
- Ffioedd cynrychiolwyr

**Sylwadau penodol**
Mae'r cynllun hefyd yn cynnig mentora/cymorth i rwydweithio

**Gwelwyd ddiwethaf** 06/03/2023

**https://prsfoundation.com/funding-support/funding-music-creators/international/classicalnext/**

## Royal Drawing School – gyda nawdd y Christopher Isherwood Foundation

### * 'The Don Bachardy Fellowship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**
- Rhaglen gymrodoriaeth (astudio, gofod stiwdio a rhaglen ymweliadau gyda chymorth)

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**
- Y celfyddydau gweledol (lluniadu)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**
- Artistiaid sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- Myfyrwyr ôl-raddedig galluog ac ymroddedig

**Cyrchfan(nau)**
⇐ Llundain

**Blaenoriaethau eraill**
Diben y gymrodoriaeth yw helpu i gefnogi egin artist a meithrin lluniadu fel ei sgil sylfaenol.

**Y costau sy'n berthnasol**
- Costau byw (yn cynnwys costau teithio a llety)
- Mynychu'r Royal Drawing School
- Gofod stiwdio i'w rannu

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.royaldrawingschool.org/residencies/don-bachardy-fellowship/**

# Shackleton Scholarship Fund

## * Ysgoloriaethau 'Quality of Life'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Grantiau teithio i ymweld ag Ynysoedd Falkland, neu i deithio o Ynysoedd Falkland i rannau eraill o'r byd, a hynny o fudd i'r rhanbarth ac yn gwella ansawdd bywyd yr ynyswyr.
- Mae'r gronfa o fudd i'r ysgolheigion ac i Ynysoedd Falkland drwy wella gwybodaeth a hyrwyddo sgiliau a gweithgarwch newydd.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau gweledol
- Cerddoriaeth
- Llenyddiaeth
- Disgyblaethau artistig perthnasol eraill (gweler y rhestr: **http://www.shackletonfund.com/scholar.php**)

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Preswylwyr Ynysoedd Falkland (ar gyfer symudedd allanol)
- Buddiolwyr byd-eang: rhaid i un o breswylwyr Ynysoedd Falkland wneud y cais (fel yr ymgeisydd sy'n 'noddi ar yr ynys' ar gyfer symudedd mewnol artistiaid/cerddorion ac ati o dramor – nid oes angen i'r preswylydd yn Ynysoedd Falkland roi unrhyw nawdd ariannol, ond bydd angen helpu i wneud y trefniadau ymarferol, dylunio'r rhaglen, hyrwyddo'n lleol ac ati)

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Ynysoedd Falkland a De Georgia

⇒ Byd-eang (ar gyfer ceisiadau gan breswylwyr Ynysoedd Falkland)

**Blaenoriaethau eraill**

Er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i daith y prosiect ddangos sut y bydd o fudd i ansawdd bywyd trigolion Ynysoedd Falkland

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Teithio mewnol i'r rhanbarth a'r ffioedd cysylltiedig
- Llety
- Costau eraill yn gysylltiedig â'r prosiect

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**http://www.shackletonfund.com/quality.php**

## South Georgia Heritage Trust

### * 'David Nicholls Curatorial Internship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Interniaeth guradurol yn y South Georgia Museum

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Curaduron amgueddfeydd

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Graddedigion diweddar cwrs ôl-raddedig Prifysgol St Andrews mewn astudiaethau amgueddfeydd ac orielau

**Cyrchfan(nau)**

⇒ De Georgia, De Georgia ac Ynsyoedd Sandwich y De, De'r Iwerydd

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Llety
- Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael yn rhoi manylion y mathau eraill o gostau/cymorth sydd ar gael

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://sgmuseum.gs/david-nicholls-curatorial-internship/**

## Prifysgol East Anglia

### * 'David T K Wong Creative Writing Fellowship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cymrodoriaeth i awduron

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Ysgrifennu

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Awduron sydd wedi cyhoeddi ac awduron sydd heb gyhoeddi, o unrhyw oedran a chenedligrwydd
- Awduron sy'n bwriadu creu gwaith rhyddiaith ffuglennol yn Saesneg a hwnnw'n ymdrin o ddifrif â rhyw elfen o fywyd yn Ne a De-ddwyrain Asia.

**Cyrchfan(nau)**

⇐ Y Deyrnas Unedig (Prifysgol East Anglia, Norwich)

**Blaenoriaethau eraill**

Mae'r Gymrodoriaeth wedi'i henwi ar ôl ei noddwr, Mr David T.K. Wong, gŵr busnes wedi ymddeol o Hong Kong sydd hefyd wedi bod yn athro, yn newyddiadurwr ac yn uwch was sifil, ac sydd hefyd yn awdur ffuglen. Lansiwyd y Gymrodoriaeth yn 1997 a phenodwyd y Cymrawd cyntaf ar 1 Hydref 1998.

**Y costau sy'n berthnasol**

- Dyfarniad blynyddol gwerth £26,000 i alluogi awdur ffuglen sydd eisiau ysgrifennu yn Saesneg am Ddwyrain a De-ddwyrain Asia i dreulio blwyddyn ym Mhrifysgol East Anglia.
- Mae'r ffi hwn i dalu am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gymrodoriaeth (gan gynnwys teithio, llety, fisa a chostau byw)

**Gwelwyd ddiwethaf** 24/03/2023

**https://www.uea.ac.uk/about/school-of-literature-drama-and-creative-writing/creative-writing/writing-fellowship/david-tk-wong-fellowship**

## Winston Churchill Memorial Trust

### * 'The Churchill Fellowship'

**Ieithoedd y cynllun** Saesneg

**Y math o symudedd**

- Cynllun blynyddol sy'n ariannu oedolion sy'n ddinasyddion y Deyrnas Unedig o bob rhan o gymdeithas i ddatblygu atebion newydd ar gyfer problemau mwyaf y Deyrnas Unedig, gan seilio hynny ar arloesi a'r arferion gorau a geir dramor.
- Mae'r Gymrodoriaeth yn rhoi arian ymchwil i deithio am ddau fis yn cwrdd ag arloeswyr mewn maes penodol unrhyw le yn y byd (teithio'n gorfforol neu ymchwil ar-lein), cyn cyfnod i helpu'r Cymrodyr i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau neu eu sector proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

**Disgyblaethau / ffurfiau celfyddydol**

- Y celfyddydau a chymunedau
- Y celfyddydau a diwylliant
- Heneiddio creadigol
- Yr amgylchedd ac adnoddau
- Cyhoeddir blaenoriaethau penodol ar gyfer pob rhaglen + thema agored

**Y buddiolwyr sy'n gymwys**

- Dinasyddion y Deyrnas Unedig, 18+ oed

**Cyrchfan(nau)**

⇒ Byd-eang

**Blaenoriaethau eraill**

- Cyhoeddir blaenoriaethau penodol ar gyfer pob rhaglen flynyddol.
- Bydd ceisiadau llwyddiannus yn canolbwyntio ar anghenion ac atebion cymdeithasol ehangach yn y Deyrnas Unedig (nid yw cyfnodau preswyl, arddangosfeydd, prosiectau ymchwil artistig/llenyddol/academaidd yn gymwys i gael cyllid).

**Y costau sy'n berthnasol**

- Teithio dros ffiniau
- Llety
- Costau ychwanegol

**Sylwadau penodol**

- Opsiynau i wneud ymchwil ar-lein ac ymchwil hybrid (teithio + ymchwil ar-lein)
- Telir costau angenrheidiol i gynorthwyo ymgeiswyr anabl (costau gofalwyr/cynorthwywyr personol)
- Rhoddir cyngor am deithio wrth wneud ymchwil o dan y gymrodoriaeth er mwyn lleihau'r ôl-troed carbon

**Gwelwyd ddiwethaf** 20/03/2023

**https://churchillfellowship.org/**

# E.

# Adnoddau ychwanegol

# Cronfeydd data am gyllid

## * Funds Online

Cronfa ddata am gyllid yw Funds Online sy'n cynnwys dros 8,000 o gyllidwyr. Mae'n cael ei chynnal gan y Directory of Social Change yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer unigolion, yn ogystal â sefydliadau, gydag opsiwn i ganolbwyntio ar addysg a hyfforddiant, ynghyd â'r gallu i chwilio am ffurfiau celfyddydol penodol. Mae modd tanysgrifio i gael canlyniadau chwilio'r gronfa ddata.

**fundsonline.org.uk**

## * GrantNav

Platfform data agored y mae modd ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim i weld a chwilio am wybodaeth am gyllidwyr gan sefydliadau sy'n rhoi grantiau yn y Deyrnas Unedig. Mae modd chwilio o dan nifer o elfennau, gan gynnwys yn ôl cyllidwyr, derbynwyr, lleoliad a geiriau allweddol, a hynny am filoedd o grantiau.

**grantnav.threesixtygiving.org**

# Gwasanaethau cynghori

## * Gwybodfan Celf y DU

Partneriaeth o aelodau o bob un o gynghorau celfyddydau'r Deyrnas Unedig yw Gwybodfan Celf y DU. Mae'n cael ei harwain gan Gyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae'n rhoi arweiniad ac yn helpu i sicrhau bod cydweithio, cyfleoedd a phrofiadau rhyngwladol yn gallu parhau yn sectorau diwylliannol y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'n fan canolog sy'n rhoi gwybodaeth ymarferol ac adnoddau yn rhad ac am ddim i helpu artistiaid a chwmnïau rhyngwladol sy'n dod i'r Deyrnas Unedig i wneud gwaith creadigol. Mae hefyd yn helpu lleoliadau a chwmnïau yn y Deyrnas Unedig sy'n dymuno gwahodd a lletya gweithwyr creadigol rhyngwladol, ac yn rhoi cymorth i weithwyr creadigol o'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio yn rhyngwladol.

**artsinfopointuk.com**

## * Gwasanaeth cynghori am fisâu

Gwasanaeth rhad ac am ddim gan Help Musicians, sydd ar agor i bob cerddor yn y Deyrnas Unedig ac i bobl sy'n helpu cerddorion i fynd ar daith. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr artistiaid, rheolwyr teithiau, a hyrwyddwyr. Mae'n rhoi cyngor am weithio dramor, fisâu a thrwyddedau gwaith, rheolau tollau, a'r rheolau ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector cerddoriaeth ynghylch symud cyfarpar a nwyddau.

**helpmusicians.org.uk/get-support/develop-as-a-musician/advice/visa-advice-service**

# Cyfleoedd symudedd a chyllido-detholiad o adnoddau sy'n rhoi gwybodaeth i artistiaid yn y Deyrnas Unedig

## * a-n The Artists Information Company

a-n yw'r sefydliad aelodaeth mwyaf i artistiaid gweledol yn y Deyrnas Unedig, ac mae ganddo dros 29,000 o aelodau. Mae tanysgrifiadau i aelodau yn rhoi mynediad ar-lein i restr o gyfleoedd, gan gynnwys grantiau symudedd, cyfnodau preswyl, ac adnoddau datblygu proffesiynol eraill. Cyhoeddodd a-n adroddiad yn 2022, 'International Connections: The impact of the UK departure from the European Union on the Visual Arts Sector'.

**https://www.a-n.co.uk/research/international-connections/**
**https://www.a-n.co.uk/**

## * Artquest

Rhestr sy'n cael ei diweddaru'n gyson o gyfleoedd i artistiaid gweledol, yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang.

**https://artquest.org.uk/opportunities/**

## * Artsadmin

Cyfeirlyfr o adnoddau sy'n rhestru lleoliadau, cyrff cyllido, rhwydweithiau a rhagor yn y Deyrnas Unedig – a hynny wedi'i deilwra i artistiaid sy'n gweithio yn y maes celfyddyd fyw a pherfformio cyfoes. Mae Artsadmin Anchor yn gylchlythyr wythnosol dros e-bost i artistiaid a gweithwyr celfyddydol proffesiynol, ac mae'n rhoi gwybodaeth am gyllid, galwadau agored a chyfleoedd.

**https://www.artsadmin.co.uk/for-artists/resources-directory/**
**https://www.artsadmin.co.uk/for-artists/anchor/**

## * Axisweb

Rhestr o gyfleoedd celf cyfoes yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, a hwnnw ar gael drwy danysgrifiad, gyda phrisiau misol fforddiadwy.

**https://www.axisweb.org/about-opportunities/**

## * British Council

Mae gan y British Council nifer o gyfleoedd symudedd i artistiaid a gweithwyr creadigol unigol. Mae llawer o'r cyfleoedd ar ffurf galwad i gydweithio rhwng y Deyrnas Unedig a phartneriaid rhyngwladol, a hynny yng nghyd-destun fframweithiau rhaglenni byd-eang y British Council:

- Cyfnewid diwylliannol
- Yr economi greadigol
- Diwylliant yn ymateb i heriau byd-eang
- About Arts | British Council

Bydd tymhorau dwyochrog yn aml yn galw'n agored am bartneriaethau: Festivals and Seasons | British Council

Mae'r cyfleoedd celfyddydol yn rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr yn y Deyrnas Unedig ac i bartneriaid tramor. Bydd nifer o gyfleoedd yn cynnwys teithio rhyngwladol. Mae'r rhestr yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn cynnwys galwadau byd-eang a rhanbarthol a'r rhan fwyaf o alwadau cenedlaethol. Bydd cylchlythyr celfyddydol yn cael ei anfon bob pythefnos. Arts Opportunities | British Council

Mae'n syniad da hefyd edrych i weld gwefannau'r British Council ar gyfer gwledydd, rhanbarthau a ffurfiau celfyddydol unigol, i weld y cyfleoedd a'r galwadau.

### * Crafts Council

Rhestr o swyddi, cyfleoedd a chyfnodau preswyl ac ati ar gyfer gwneuthurwyr crefftau cyfoes.

**https://www.craftscouncil.org.uk/business-skills/opportunities**

### * FLAMIN (Film London Artists' Moving Image Network)

Rhestr o gyfleoedd drwy alwadau agored ar gyfer artistiaid sy'n gweithio yn y byd delweddau symudol – mae'n cynnwys cyfleoedd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

**https://filmlondon.org.uk/resource/artist-opportunities**

### * Jerwood Arts Signpost

Rhestr o gyllid ac adnoddau i artistiaid a sefydliadau sy'n cael eu harwain gan artistiaid yn y Deyrnas Unedig.

**https://jerwoodarts.org/resource/signpost-funding-and-resources-for-uk-based-artists-and-artist-led-organisations/**

# Adnoddau symudedd eraill

### * Artists at Risk (AR)

Mae'n cynnig cyfnodau preswyl byrdymor i artistiaid yn y Deyrnas Unedig (ac mewn nifer o wledydd eraill). Mae cynlluniau 'AR-Residencies' yn galluogi ymarferwyr i gael "hoe" o'u gwlad gartref, neu i ddefnyddio'r rhaglen fel "carreg sarn" i roi trywydd newydd i'w bywydau proffesiynol. Bydd y rheini sy'n cael y cyfnodau preswyl hyn yn cael eu anrhydeddu fel gweithwyr celfyddydol proffesiynol, yn hytrach na cheiswyr lloches neu ffoaduriaid. Gall artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol eraill wneud cais os ydyn nhw'n wynebu risg y bydd eu rhyddid mynegiant yn cael ei ffrwyno'n ddifrifol, risg o erledigaeth, neu fygythiadau ar sail wleidyddol i'w rhyddid sylfaenol. Mae gwybodaeth ar gael yn Saesneg, Arabeg, Twrceg, Rwsieg, Ffrangeg, Portiwgaleg, Bangladeshi, Belarwsieg, Hindi a Farsi.

**https://artistsatrisk.org/apply/?lang=en**

# Cyrff ac asiantau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am y celfyddydau a diwylliant (yn rhai o Diriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron Prydain)

Anguilla: Llywodraeth Anguilla – Y Weinyddiaeth Datblygu Cymdeithasol, Addysg a Llyfrgelloedd: Adran Ieuenctid a Diwylliant

**http://www.gov.ai/department.php?id=2&dept=27**

Bermuda: Bermuda Arts Council

**https://culture.bm/contributions-awards/bermuda-arts-council/**

Ynysoedd Prydeinig y Wyryf: Yr Adran Ddiwylliant

**https://bvi.gov.vg/departments/department-culture-0**

Gibraltar: Y Weinyddiaeth Diwylliant a Gwasanaethau Diwylliannol Gibraltar

**https://www.gibraltar.gov.gi/culture**

**https://www.culture.gi/**

Guernsey: Guernsey Arts

**https://arts.gg/**

Ynys Manaw: Isle of Man Arts Council

**https://www.iomarts.com/**

Jersey: ArtHouse Jersey

**https://www.arthousejersey.je/**

**https://www.gov.je/Leisure/ArtCreativity/pages/artsgrants.aspx**

Montserrat: Montserrat Arts Council

**https://artscouncil.ms/**

# Cefndir yr ymchwilwyr

Mae **Judith Staines** yn ymgynghorydd materion diwylliannol rhyngwladol llawrydd yn y Deyrnas Unedig, ac mae ganddi brofiad helaeth mewn gwerthuso, ymchwilio, ysgrifennu a gwaith golygyddol. Mae ei gwaith wedi canolbwyntio'n arbennig ar symudedd diwylliannol rhyngwladol, rhwydweithiau diwylliannol, a diwylliant a datblygu. Hi oedd golygydd porth symudedd On the Move rhwng 2004 a 2009, a golygydd platfform Culture360 yr Asia-Europe Foundation rhwng 2010 a 2022. A hithau'n arbenigwraig ar werthuso yn yr Undeb Ewropeaidd, mae hi wedi cael contractau gwerthuso ac ymchwil gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys yng Nghanol Asia; Tanzania; gwledydd Affrica, y Caribî a'r Môr Tawel; Rwsia; a'r rhanbarth Nordig-Baltig.

Mae **Katelijn Verstraete**, sydd wedi'i lleoli rhwng Singapore a Brwsel, yn gyfarwyddwr ar ReflAction Works sy'n canolbwyntio ar ymchwil, gwerthuso, mapio, hwyluso prosesau ac ymgynghori ar brosiectau diwylliannol. Mae ganddi brofiad helaeth ym meysydd cysylltiadau diwylliannol, datblygu polisi, a rheoli prosiectau rhyngwladol, gyda ffocws ar y diwydiannau celfyddydol a diwylliannol yn Asia ac Ewrop, a'r rhyngberthynas rhwng y celfyddydau ac addysg, datblygu cynaliadwy, a chynhwysiant cymdeithasol. Yn 1999 cydsefydlodd Katelijn y gofod celfyddydol annibynnol cyntaf yn Shanghai, BizArt. Yn ôl yn Ewrop, roedd hi'n canolbwyntio ar hyfforddiant, darparu gwybodaeth, a chysylltiadau yn Asia ar gyfer IETM ac On the Move. Rhwng 2006 a 2012, fe arweiniodd hi raglenni cyfnewid diwylliannol rhwng Asia ac Ewrop a sefydlu porth gwybodaeth yr Asia Europe Foundation am symudedd, Culture360. Hi oedd Cyfarwyddwr Celfyddydau Rhanbarthol y British Council yn Nwyrain Asia rhwng 2012 a 2021, gan ganolbwyntio ar rwydweithio, symudedd, cyfnewid artistig, sgiliau a datblygiadau polisi rhwng y Deyrnas Unedig ac 14 o wledydd Asia. Mae'n gyd-awdur Fair Collaborations in Cultural Relations: Not a Toolkit.

ON
THE
MOVE

Gwybodfan Celf y DU
Arts Infopoint UK

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

The Scottish Government

ALBA | CHRUTHACHAIL